

ECO'R WYDDFA

Rhif 205

HYDREF 1994

Pris 25c.

CANOLFAN GYMDEITHASOL LLANRUG Wythnos o Weithgareddau Pentrefol

Am yr ail flwyddyn yn olynol gwnaeth Llanrug gais am gymorthdal gan y Swyddfa Gymreig i godi Canolfan Gymdeithasol newydd sbon ar dir Ysgol Brynrefail. Bydd angen casglu rhai miloedd o bunnau hyd yn oed os derbynnir y cymorthdal, ond mae nifer o sefydliadau a chymdeithasau'r pentref wedi ymrwymo i ariannu rhan o'r gwaith. Mae'r Cyngor Cymdeithas eisoes wedi agor cyfrif arbennig i gasglu arian tuag at y fenter, ac fel rhan o'r ymgyrch, cynhaliwyd wythnos o weithgareddau amrywiol ar ddechrau mis Medi.

Trefnwyd holl wahanol ddigwyddiadau'r wythnos gan fudiadau a chymdeithasau lleol, gan gloi'r wythnos gyda ailgyfodi'r Carnifal blyneddol a fu mor llwyddiannus yn y pentref yn y gorffennol. Cafwyd cychwyn arbennig i'r wythnos gyda Chymanfa Ganu wedi ei threfnu gan wahanol eglwysi'r cylch. Yn dilyn, ar y nos Lun, roedd y Clwb Pêl-droed wedi trefnu cystadlaethau a barbeciw ar Gae Eithin Duon. Nos Fawrth tro Merched y Wawr a phwyllgor yr Eisteddfod oedd cynnal Hwyl i'r Teulu yn Neuadd yr Ysgol Gynradd; a threfnwyd Helfa Drysor gan y Seindorf ar y nos Fercher. Pwyllgor y Carnifal eu hunain oedd yn gofalu am y nos Iau gyda Tombola; ac ar y nos Wener fe gynhaliwyd noson o Rasus i'r plant a Ras Hwyl i'r oedolion wedi ei threfnu gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol Gynradd. Ar y pñawn Sadwrn cynhaliwyd gorymdaith y Carnifal drwy'r pentref gyda'r beirniadu yn digwydd ar fuarth yr Ysgol Gynradd.

Yn ystod yr wythnos fe gasglwyd £850 tuag at gronfa'r Ganolfan Gymdeithasol, a chyflwynwyd y siec i Gwyn Hefin Jones, Is-gadeirydd y Cyngor Cymuned gan Mrs Elizabeth Roberts, Trysorydd y Carnifal, ar ran yr holl fudiadau a gyfranodd tuag at lwyddiant yr wythnos. Adroddwyd nad dyma'r cyfanswm terfynol gan fod nifer o roddion ac addewidion i'w hychwanegu eto. Ar ran y Cyngor Cymuned, diolchodd Gwyn Hefin Jones i bawb a fu mor barod i weithio tuag at gynnal yr holl wahanol weithgareddau, gan fynegi'r gobaith y byddai newyddion da yn cael eu derbyn o du'r Swyddfa Gymreig cyn diwedd y flwyddyn.

CYDWEITHIO YN YR YSGOL



Jessica Jones, blwyddyn 1, yn helpu Kerry Lloyd Jones, blwyddyn 0, i fwyta'r jeli oedd yn mynnu dianc yn Ysgol Cwm-y-glo ar ddechrau tymor newydd.

RULE BRITANNIA — YN GYMRAEG!

Mae'n anodd iawn cael sefydliad mwy Seisnig ei naws na'r cyngerdd blyneddol yn yr Albert Hôl i ddathlu 'Noson Ola'r Proms'. Llund y lle o Saeson anwaraidd o ddiwylliedig yn chwifio Union Jacks tra'n morio canu 'Land of Hope and Glory' a 'Rule Britannia'.

Hen dric sâl felly oedd gwahodd cystal Cymro â Bryn Terfel i ganu 'Rule Britannia' yn y cyngerdd a gynhaliwyd ym mis Medi. A phan holwyd y canwr mawr ar raglenni Radio Cymru a Radio Wales cyn y perfformiad a fyddai'n canu'r gân honno yn Gymraeg, ei ymateb oedd

'Rhowch chi gyfieithiad i mi, ac fe'i canaf!'

Doedd fawr o neb yn gwybod bod Bryn wedi bod yn brys yn paratoi tipyn o syrpeirs ar gyfer ei gynulleidfa. Fis cyn noson y Proms roedd wedi anfon neges ffacs o Efrog Newydd at Gwyn Parri o Ddeiniolen yn gofyn iddo gyfieithu pennill o'r gân ar ei gyfer. (Teg yw nodi mai dawn fydryddol Gwyn yn hytrach nag unrhyw argyhoeddiadau ymerodrol o'i eiddo a barodd i Bryn Terfel ofyn iddo gyfieithu'r gân.) Cyfieithodd Gwyn y pennill a'i anfon i Efrog Newydd drwy'r peiriant ffacs.

Erbyn noson y Cyngerdd roedd Bryn wedi sicrhau bod hyd yn oed aelodau Côr Symffoni'r BBC wedi gwneud ymdrech i ddysgu'r geiriau Cymraeg. Mae'n debyg bod ambell i gantores wedi cael hwyl wrth ganu 'Rule Britannia' yn y cyngerdd hwn dros y blyneddod, ond siawns na wnaeth neb fwy o argraff na Bryn. Ar ganol y gân dyma ddechrau canu'r geiriau Cymraeg a anfonwyd ato o Ddeiniolen.

Roeddem wedi meddwl yn siŵr cael cyhoeddi cyfieithiad Gwyn o'r gân fawreddog hon. Yn anffodus, gan na chadwodd Gwyn Parri gopi o'r geiriau, ni allwn wneud hynny. Biti am hynny gan fod yr 'Eco' wedi ystyried gosod plac ar estyniad newydd ei gartref yn nodi mai: 'YMA MAE CYFIEITHYDD CYMRAEG RULE BRITANNIA YN BYW'.

Y Peiriant Rhedeg



Gweler y stori ar dudalen 9



Aelodau gwahanol fudiadau a chymdeithasau Llanrug ar achlysur cyflwyno siec am £850 gan Mrs Elizabeth Roberts (Pwyllgor Carnifal) i Mr Gwyn Hefin Jones (Is-gadeirydd y Cyngor Cymuned).

GWARCHAE'R GLYN

Rhyddhad mawr i bobl Dyffryn Nantlle oedd gweld 'teithwyr yr oes newydd' fu'n gwersylla yn Chwarel Dorothea yn ymadael yn gynharach ym mis Medi. Ond cael eu cythruddo wnaeth pobol Rhosgadfan pan symudodd rhai o'r teithwyr i Chwarel Cors y Bryniau gerllaw'r pentref. Ddiwedd yr wythnos diwethaf roedd pryder yma yn Nyffryn Peris bod rhai o'r teithwyr yn bwriadu symud i dir Glynrhonwy.

Yr oedd un cerbyn wedi cyrraedd tir Glynrhonwy ac ofnid y byddai eraill yn dilyn. Felly aeth Cyngor Arfon, perchenogion y tir, ati ar unwaith i ddiogelu'r safle. Gosodwyd clwydi ar draws y ffyrdd at ffatri Euro-DPC a'r Glyn, a chyflogwyd swyddogion diogelwch i'w gwarchod. Gosodwyd cerrig mawr ar draws y mynedfeydd nas defnyddir yn rheolaidd. A chloddwyd ffosydd i rwystro cerbydau rhag gyrru heibio'r clwydi.

Ceisiwyd perswadio'r ddau ddyn a merch i symud oddi yno efo'u cerbyd a'u cŵn. Pan wrthodon nhw, cloddwyd ffosydd o amgylch y cerbyd i'w rhwystro rhag symud. Nos Sadwrn diwethaf, clywodd un o'r swyddogion diogelwch sŵn tanio gwn awyr, a galwyd ar yr heddlu. Daeth heddlu arfog ac arbenigwyr trin cŵn yr heddlu yno. Arestwyd y ddau ddyn, a'u cadw yn y ddalfa. Ers hynny cyrhaeddodd teulu'r ferch Lanberis, ac mae'n debyg iddi hi fynd adref i'r Alban gyda hwy.

Bwriedir cadw'r swyddogion diogelwch ar y safle am rai dyddiau i geisio sicrhau na ddaw rhagor o'r teithwyr yno. Gan fod pryder ynglŷn â'r llanast a'r difrod a wneir gan y teithwyr, go brin y byddai croeso i griw ohonynt pe symudent i hen chwarel Glynrhonwy.

Mae'r hyn a ddigwyddodd dros y Sul diwethaf yn dangos mor hawdd y gall fod i deithwyr o'r fath symud i le fel Glynrhonwy, sydd yn gorfod bod yn agored i'r gweithlu ac i ymwelwyr. Mae safle eang o'r fath yn anodd i'w ddiogelu, ond does ond gobeithio bod ymateb sydyn y Cyngor wedi sicrhau y bydd teithwyr eraill yn cadw draw oddi yma.

ECO'R WYDDFA

Rhif 205
HYDREF 1994

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(0248) 670115
DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Ynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)
FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor
TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)
TREFNYDD BWNDELU
Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,
Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)
TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)
TREFNYDD PLYGU
Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts Williams, Godre'r Coed
(870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)
DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)
NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, HYDREF 27
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, HYDREF 17
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
TACHWEDD	HYDREF 27	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	RHAGFYR 1	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)

DEINIOLLEN: Glyn Gruffydd, Cynfi (870394)

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

Aduniad Ysgol Brynrefail Llanrug

Annwyl ffrindiau,

Yr ydym yn trefnu aduniad anffurfiol
i ddisgyblion a ymunodd ag Ysgol
Brynrefail yn y blynyddoedd
1968-1970.

Mae noson wedi ei threfnu yng
Ngwesty'r Royal Victoria, Llanberis,
ar yr 21ain o Hydref, 1994, am 7.30
o'r glych. Bydd pryd mewn basged
ar gael am bris o £6.

Cysylltwch â'r trefnydd am eich
blwyddyn gyntaf chwi yn yr ysgol,
os gwelwch yn dda, a hynny erbyn
diwedd mis Medi.

Gobeithio y byddwch yn medru
dod ac edrychwn ymlaen at eich
gweld chi eto.

Wela ni chi yno,

AVRIL, SIONED a MAIR

1968:

Avril A. Jones, Glan y Don, Cwm-y-
glo. (0286) 872256

1969:

Sioned Jones, Isfryn, Cwm-y-glo.
(0286) 872085

1970:

Mair N. Evans, 4 Talybont, Llanrug
(0286) 678303

Ymchwil i Hanes Ysgol Brynrefail

Yn rhifynnau Mawrth a Mai yr *Eco*
fe grybwyllwyd yr ymchwil sy'n cael
ei wneud gan ddau ysgolhaig o
Fangor i hanes Ysgol Brynrefail yn
y cyfnod 1919-39.

Nodwyd bod y Dr H. G. Williams
a T. M. Bassett wedi paratoi holiadur
i'w lenwi gan gyn-ddisgyblion o'r
cyfnod yma neu gan aelodau o'u
teuluoedd os ydynt wedi ymadael.
Bellach clywsom fod dros 300 eisoes
wedi ymateb a nifer ymhellach wedi
derbyn holiaduron. Y gobaith yw
sicrhau cymaint o ymatebion â
phosibl fel bo ffrwyth yr ymchwil yn
wir arwyddocaol.

Erfynnir felly ar i unrhyw un
o'n darllenwyr sy'n gyn-ddisgybl
o'r cyfnod uchod, neu yn berth-
nasau i gyn-ddisgyblion y rhai
sydd wedi ymadael, i gysylltu ar
fylder â'r Dr H. G. Williams,
Ysgol Cymdeithaseg a Pholisi
Cymdeithasol, Prifysgol Cymru,
Bangor. Ffôn: (0248) 38223 neu
382215.

Cyrol o Gerddi

Yn ddiweddar fe gyhoeddwyd cyrol:
Cerddi R. Gwilym Hughes. Mae'r
Parchedig R. Gwilym Hughes yn
adnabyddus iawn i ardalydd bro'r
'Eco' gan iddo, wedi ymddeol o'i
ofalaeth ym Mhenmount, Pwllheli,
symud gyda'i briod i fyw i
Gaernarfon ac mae o'n dal i
wasanaethu'n ffyddlon eglwysy'r
cylch.

Ceir yn y gyfrol ddetholiad o ganu
caeth a chanu rhydd a gyfansoddwyd
dros nifer o flynyddoedd ac mewn
cyrol o'r fath cawn ynddi ganu
cyhoeddus i ardal ac i Gymru gyfan,
fel 'Y Dadeni'. Cawn ynddi hefyd
gerddi personol i deulu a chyfeillion
y bardd, fel ei gerdd i ddathlu
Priodas Aur trwy ganu gŵr i'w wraig;
cerdd arall i gyfarch ei ferch —
Carys, yr organyddes enwog — ar
ddathlu ei phen-blwydd; englyn
hefyd i'r Gweinidog/ddramodydd a
fu'n gweinidogaethu yn y cylch yma,
sef Y Parchg John Owen, Rhuthun.
Ceir canu gyda hiwmor ysgafn ac
mae yna ganu difri' iawn hefyd.

Yn bendant fel emynydd y mae
cyfraniad pennaf y Parchg Gwilym
Hughes ac mae ei gyfraniad i
emynyddiaeth 'fodern' yn
amhrisiadwy. Cyn clywed sôn am
gyfrolau ardderchog fel *Clap a Chân*,
sy'n emynau ac alawon modern i
blant a'r ieuenctid, byddai Mr
Hughes yn mynd ati i gyfansoddi
emynau, ac yn cyfieithu eraill, i'w
canu ar alawon modern a hynny at
wasanaeth ysgolion cylch Pwllheli.
Gan fod y bardd hefyd yn gerddor
medrus caed fod y cyfansoddiadau
a'r cyfieithiadau yn hollol ystwyth i'r
gerddoriaeth.

Pan fu dewis a dethol emynau a
thonau ar gyfer *Atodiad o Emynau a*
Thonau roedd yn amlwg fod bys yr

emynydd hwn ar byls y plant a'r
ieuenctid a'i fod llawn cymaint 'with-
it' â threfnydd ieuenctid yr Hen
Gorff!

Mae'r Parchg Gwilym Hughes
wedi cyfranu cryn dipyn i Gyfundeb
yr Eglwys Bresbyteriaidd — Llywydd
Sasiwn y Gogledd a'r Gymanfa
Gyffredinol; Golygydd Cyffredinol y
Cyfundeb gan ofalu am
gyhoeddiadau swyddogol (ac
answyddogol!) y Presbyteriaid; ac yn
Olygydd Y *Goleud* am nifer o
flynyddoedd.

Bu'n gofalu yn fanwl ac annwyl
iawn am 'Gongl y Beirdd' yn y
newyddiadur hwnnw ac o'r miloedd
o gerddi a dderbyniwyd ganddo i'r
'Gongl' dros y blynyddoedd —
rhai'n wych eraill yn wachul! — ni
welwyd ganddo feirniadaeth lem ar
y cynhyrchion, o na, dim ond gair o
ganmoliaeth a diolch am bob cerdd
a dderbyniwyd. Felly, yn
nhraddodiad y Parchedig Gwilym
Hughes ei hun, fe ddiolchaf innau
am y gyfrol. Gwn y bydd cryn
ddarllen arni gan fod ynddi gerddi
i'n difyrro a'n diddori, eraill i'n
difrifoli, a'r emynau i ni fyfyrio
ynddynt.

Pris y gyfrol yw £3.95 a'r
cyhoeddwyd, wrth gwrs, yw Gwasg
Pantycelyn, Caernarfon.


W.J.H.

Ymchwil y Galon

Cynhelir **FFAIR HYDREF**
Cangen Caernarfon a'r Cylch o Apêl
Ymchwil y Galon ar nos Iau, 3
Tachwedd, yng Ngwesty'r Royal,
Caernarfon, am 7 o'r gloch.

Mae cardiau Nadolig Ymchwil y
Galon yn awr gan Mrs Mai Parry, 2
Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon,
Llanrug (0286) 674385.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/ffacs: 650291



Dewis eang o
Welyau a '3P/Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

CAPEL MAWR LLANRUG

Bydd gan Eglwys y Rhos, Llanrug, gapel newydd sbon o fewn y Ganolfan y bwriedir ei chodi yn y pentref o fewn y blynyddoedd nesaf. Yn naturiol mae aelodau'r eglwys yn edrych ymlaen yn fawr at godi'r Ganolfan honno.

Yn y cyfamser bydd yr eglwys yn cyfarfod yng Nghapel Pontrhythallt sydd wedi ei adnewyddu yn ddiweddar. Ffurfiwyd Eglwys y Rhos wrth gwrs trwy uno'r pedair eglwys Bresbyteraidd yn Llanrug. Y mae capeli'r Ceunant a Thanycod wedi eu gwerthu ers tro, ac erbyn hyn gwerthwyd y Capel Mawr hefyd.

Cynhaliwyd oedfa arbennig i ddynodi cau'r capel brynhawn Sul, Medi 11. Llywyddwyd yr oedfa gan Mr Hywel Evans, Llywydd Henaduriaeth Arfon. Cymerwyd rhan hefyd gan swyddogion eraill yr Henaduriaeth, y Parchg Eric Jones a'r Parchg John Pritchard, ynghyd ag un o flaenoriaid yr eglwys, Mr John Wyn Owen. Yr oedd gweinidog yr eglwys, y Parchg John Morris, yn absennol oherwydd gwaeledd. Traddodwyd annerchiad gan Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, y Parchg Dafydd Owen. Yr oedd yn argyhoeddedig bod y pedair eglwys wedi gweithredu'n gywir wrth uno a'i gilydd, ac wrth fwriadu ymgartrefu o fewn y Ganolfan newydd. Dymunwn ninnau bob bendith i'r eglwys yn ystod y blynyddoedd nesaf.



Blaenoriaid yr eglwys a swyddogion yr Henaduriaeth y tu allan i'r Capel.

PRIF DDISGYBLION YSGOL BRYNREFAIL



Llongyfarchiadau i'r pedwar, o'r chwith i'r dde: Sioned Wyn Jones, Penisarwaun; Llinos Angharad Morris, Bethel; Dylan Lloyd Jones, Llanrug; ac Osian Dafydd Evans, Penisarwaun. Llinos a Dylan yw'r prif ddisgyblion, a Sioned ac Osian yw'r dirprwyon.

Arddangosfa o Waith Crefftwyr Lleol

Mae Cyngor Cymdeithas Llanrug yn awyddus i noddi arddangosfa o waith crefftwyr lleol sy'n byw o fewn y gymuned. Y bwriad yw rhoi cyfle i rai nad ydynt yn grefftwyr proffesiynol i arddangos eu talentau. Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod nifer o drigolion yn ymddiddori mewn gwahanol grefftau yn eu oriau hamdden, a bod eu cynnyrch gorffenedig o safon uchel.

Byddai'r Cyngor yn falch o glywed gan rai sydd â diddordeb mewn arddangos eu gwaith boed arlunwaith, gwaith coed, metel, crochenwaith, gwau, gwnïo, pwytho, sychu blodau, ac yn y blaen — er mwyn gallu trefnu lle addas i arddangos y gwaith. Y gobaith yw trefnu'r arddangosfa cyn y Nadolig eleni.


Gellir gwneud ymholiadau trwy gysylltu â'r Clerc, Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug. Ffôn: (0286) 674669.

DYN Y MOTO BEIC

Anodd tynnu dyn oddi wrth ei dylwyth. Mae John Davies o Fodurdy'r Wyddfa, Llanberis, wedi bod yn ymhel â rasmus moto beics ers blynyddoedd. Mae'n ymwelydd cyson â'r rasmus ar Ynys Manaw, ac yn berchen ar fwy nag un moto beic rasio ei hun. Reidiwr o Drawsffynedd, ac un arall o'r de, sy'n rasio moto beics John ar Ynys Manaw y dyddiau hyn. Does ryfedd bod ei fab deunaw oed, Dylan, wedi gwirioni ar foto beics ers yn hobynt ifanc iawn.

Bu Dylan, sy'n gweithio efo'i dad yn y garej, yn edrych ymlaen ers blynyddoedd at gael rasio ei hunan. Dysgodd reidio moto beic yn 16 oed, a dechrau rasio y flwyddyn ganlynol. Erbyn hyn mae Dylan wedi cystadlu ryw ddeg o weithiau mewn Rasus Ffordd i feiciau'r dosbarth 125cc. Gwelwyd ef a'i Honda 125RS yn gyson dros yr haf yn Nhŷ Croes, Ynys Môn, a hefyd mewn llefydd fel Tonfannau, New Brighton a Three Sisters yng nghyffiniau Lerpwl.

Mae'n cystadlu yn erbyn reidwyr profiadol iawn, ac ef yw'r ieuengaf o ddigon ym mhob ras. Mae'r rhan fwyaf o'i gyd-gystadleuwyr oddeutu 30 mlwydd oed. Tua deunaw o foto beics sydd mewn ras, a gynhelir fel arfer dros gwrs o bum milltir. Eisoes gorffennodd Dylan yn yr ail safle mewn un ras, ac mae'n



Dylan yn barod i rasio yn Nhonfannau.

edrych ymlaen yn arw at ennill ei ras gyntaf. Ond mae'n bosib y bydd raid iddo ddisgwyl am sbel am y fuddugoliaeth honno gan mai un ras yn unig sydd ar ôl y tymor hwn. Bydd rhaid aros wedyn tan ddechrau'r tymor newydd fis Mawrth nesaf.

Mae'n cael ei noddi gan gwmni bysiau KMP Llanberis, ac wrth gwrs mae'n ddiolchgar am y nawdd hwnnw. Wrth sôn am y flwyddyn nesaf, dywed ei fod yn bwriadu aros yn y dosbarth 125cc ond mae'n gobeithio cael beic gwell cyn bo hir er mwyn iddo fedru cystadlu'n fwy effeithiol.

Mae'n amlwg bod gan Dylan

ddigon o frwdfrydedd ynglŷn â'r gamp. Mae ganddo ddigon o blwc hefyd, ac mae'n siŵr bod angen hynny arno mewn camp sy'n gallu bod yn beryglus dros ben. Nid oes raid i neb ddweud am y peryglon wrtho erbyn hyn ychwaith gan ei fod eisoes wedi ei anafu ei hunan ddwywaith tra'n rasio. Torrodd bont ei ysgwydd ddwywaith eleni, ond nid yw hynny wedi pylu dim ar ei frwdfrydedd a'i benderfyniad.

Dymunwn yn dda iddo efo'i rasio. Gobeithio daw'r fuddugoliaeth gyntaf yn fuan. Ond yn bwysicach na hynny, dymunwn dymor di-anaf iddo y flwyddyn nesaf.

DRAENOG



Mae Mike Walker, rheolwr tîm Everton, wedi datgelu mai dau Gymro fydd chwaraewyr newydd y clwb. Gall y Draenog ddatgelu mai Llew Pritchard a Jimmy Jones yw'r ddau dan sylw. Roedd y ddau ohonynt wedi cychwyn o Lanberis i Wrecsam i weld gêm y noson o'r blaen. Yn anffodus, rywfodd rywsut fe lwyddon nhw i fynd heibio i Wrecsam a glanio yn Lerpwl. Yn ffodus roedd yna gêm ym Mharc Goodison, ac i'r fan honno yr aethon nhw. A rŵan mae Mr Walker yn benderfynol o arwyddo'r ddau, ac yn teimlo'n hyderus y byddant yn gartrefol ym Mharc Goodison. 'Wedi'r cwbl,' meddai, 'tîm wedi colli ei ffordd yw Everton erbyn hyn'.

CHWILOTA TRAMPIO A CHARDOTA



Yn dilyn y cais cyn gwyliau'r haf am atgofion ynglŷn â chardota, daeth dau ymateb i law: un yn cofio am dramps ardal Waunfawr, a'r llall yn hel atgofion am y cymeriadau yn ardal Llanrug. Diolch i John Harvey o Langefni ac i Robert Williams o Lanrug am roi eu hatgofion ar bapur. Mae'r ddau wedi cyfrannu nifer o erthyglau i'r 'Eco' yn y gorffennol.

Mae cof gan John Harvey am dri o grwydriaid yn ardal Waunfawr: 'Yr oedd un creadur heb goesau o gwbl, ar wahân i ddau stwmpyn wedi eu lapio mewn lledr.' Roedd y creadur digalon hwn yn crwydro o bentref i bentref gerfydd ei ddwylo.

'Dyn byr, un fraich oedd yr ail. Byddai'n canu corn tebyg i gornet wrth gardota'n y pentref.'

Does ganddo ddim enw i'r un o'r ddau, ond mae'n ymddangos eu bod yn ymwelwyr gweddol gyson â'r ardal. Oes rhywrai o'r darllenwyr yn eu cofio neu'n medru rhoi mwy o wybodaeth amdanynt?

Unwaith yn unig y mae John Harvey yn cofio gweld y trydydd, a hynny ar adeg eira mawr yn y dauddegau: 'Yr oedd y ffordd fawr yn eira trwchus, a ninnau, blant Rhes Glyn Afon yn ei glywed yn dod o gyfeiriad y Llythyr. Roedd clychau wedi eu gwnio i'w ddillad a'i gap. Roedd rhai ar ei goesau a'i freichiau hefyd. Dawnsiai yn wyllt wrth ddod, a chofiaf ei ddilyn draw at Groes y Waun, a'r bobl yno'n rhoi cardod iddo am ei berfformiad.'

Oes yna rai o 'blant Rhes Glyn Afon' yn dal i gofio'r achlysur?

Mae Robert Williams yn nodi fod deddfau yn erbyn cardota yn bod ers canrifoedd, ac mewn Statud Llafur yn 1550 gwaherddid rhoi unrhyw beth i gardotyn oedd yn atebol i waith. Roedd amryw fân ddeddfau

tebyg yn bod hefyd hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac y mae'r Llywodraeth bresennol yn bytheirio byth a hefyd ynglŷn â'r bobl sydd, yn eu tyb hwy, yn begera oddi ar y Wladwriaeth.

John Preis, mae'n debyg, yw tramp enwocaf Cymru. Dyma rhywfaint o'i hanes gan Robert Williams: 'Un o ardal Clynnog oedd ef a chanddo eiddo yn Nhyddyn y Garreg, Capel Uchaf. Byddai'n ymweld â swyddfa rhyw dwnnai ym Mhwlheli i chwilio am gildwrn o rent weithiau. Roedd yn hy' iawn ar drigolion Clynnog, yn galw o dŷ i dŷ i geisio tamaid a llymaid. Os na fyddai wrth ei fodd, taflai'r cardod ymaith gan regi yn anniolchgar. Gadawai giatiau'n agored i ddial. "Sgylfath" oedd popeth ganddo.

Clywais sôn iddo gael gwadd i dŷ yr hen bregethwr, Owen Hughes ym Mwlch Gwynt, Clynnog, i gael tamaid o swper ar nos Sul. Hen lanc yn byw ar ben ei hun oedd Owen Hughes ac fe gadwai dyddyn a phregethu ar y Sul. Y noson honno roedd ganddo ddillad glân yn crasu ar hors o flaen y tân Dislannodd John Preis ar ôl cael ei wala, a dislannodd sannau yr hen bregethwr hefyd!

Crwydrai ymhell o'i gynefin, a chof gennyf ei weld yn cerdded ar fin y ffordd ger gwersyll RAF Sealand ar y gororau. Herciai ymlaen rhyw chwe cham, ac yna troi'n ôl yn sydyn i ddisgwyl lifft. Clywais amryw yn sôn iddo gael ei

fagu ar aelwyd Gristnogol, ond cymaint rebel oedd, ei bod yn well ganddo grwydro na thrin ei dyddyn etifeddol. Wedi ei ddifetha gan yr hen deulu mae'n siŵr.'

Mae Robert Williams yn cofio cardotyn o'r enw Siôn Cadi hefyd. Roedd yn byw mewn lle o'r enw 'Tŷ Jerry' yn y Bryngwyn yn ystod ugeiniau'r ganrif hon: 'Hen ŵr cloff, barfog, yn gwisgo côf fawr ddu-goch, laes, a het bowler oedd Siôn Cadi. Byddai ganddo ffon neu bastwn i'w helpu i gerdded, a gwae ni'r plant a fynnai ei bryfocio, ddod i gyrraedd y ffon! Byddai yn ymweld â'r tai i grefu am ddŵr poeth i roi ar ei ddail te.

Roeddwn yn Siop Bryngwyn yr un pryd ag ef rywdro, ac yntau'n gofyn, "Oes gynnoch chi fyns ddoe?"

"Oes," meddai'r wraig wrth y cownter.

"Faint ydi un?"

"Ceiniog, fel arfer," atebodd hithau.

"Ga i hi am ddima?" holodd Siôn.

Dyna sut y byddai cybydd yn hel arian. Nid tlawd oedd Siôn Cadi. Yn ôl y sôn cafwyd tua dwy fil o bunnau wedi eu gwnio yn ngodre ei gôt pan drengodd. Credir mai un o ardal Nebo, Llanllyfni ydoedd, gan y câi swcwr beunydd yng nghartref un o'r ardal honno a oedd yn byw yn Nhan y Coed.

Sonnir amdano un tro wedi cael pen oen gan ryw gigydd ac yn crefu am ddŵr poeth iddo gael gwneud potes.'

Mae Robert Williams yn diweddu ei atgofion am Siôn Cadi drwy sôn am ei drigfan: 'Hen fwthyn ryw feudwy o'r ganrif ddwytha' ym mhen draw y Lôn Gefn ym Mryngwyn.'

Diddorol nodi mai 'Tŷ Jerry' oedd yr enw a roddid i'r hen fwthyn. Mae traddodiad am y Jerry neu'r Jeremiah hwn yn byw ym Mryngwyn, ac yn mynd bob nos i borth eglwys Llanrug i gysgu. Dyna'r unig le roedd y creadur yn cael llonydd rhag yr ysbrydion oedd yn ei boenydio! Dywedir hefyd fod y Jeremiah hwn yn medru Groeg a Lladin a'i fod yn benthyca llyfrau gan y Rheithor, y Parchedig Peter Bailey Williams.

Mae'n anodd darganfod gwybodaeth bendant am Jeremiah, ond mae bedd ym mynwent Llanrug gyda'r arysgrif ganlynol: 'Yma y gorwedd y rhan farwol o ddyn, sef William Jeremiah Williams, yr hwn ni thybiai neb islaw iddo ond y trwch a'r traws; na neb uwchlaw iddo ond y doeth a'r rhinweddol. Carai wybodaeth yn fwy na chyfoeth. Bu farw ar y nawfed o Fai, 1837, yn 34ain oed.' Tybed ai hwn oedd 'meudwy'r Bryngwyn'?

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Alwyn a Sarah Jones


RACCA PENISARWAUN

- ★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

- ★ Dewis da o Lysiau Fferm.

- ★ Wyau Free Range
- Ar agor saith diwrnod




870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

Yn yr un bedd ag ef yn Llanrug claddwyd Sarah Williams (marw ar 27 Mehefin 1843, yn 69 oed), Jeremiah Williams (m. 29 Rhagfyr 1848 yn 73 oed) ac Elizabeth, merch Sarah a Jeremiah (m. Ionawr 27, 1873, yn 62 oed). Ar y garreg fedd dywedir fod Elizabeth yn briod i Owen Jones, Craig y Don, Cwm y Glo, 'yr hwn a fu farw yn Awstralia'.

Yng nghofrestrau claddu Llanrug, nodir William (Jeremiah) Williams fel un o 'Ddinorwig a Llanddeiniolen'. Does dim sôn am y Bryngwyn. Mae Sarah, ei fam, yn cael ei disgrifio fel un o Gwm y Glo — o bosib yn byw yno gyda'i merch. Nid oes cofnod o feddydd William Jeremiah Williams nac Elizabeth yng nghofrestrau plwyf Llanrug. Efallai mai o Landdeiniolen y daeth y teulu i fyw yma.

MYNWENTYDD

Yn y rhifyn diwethaf roedd Llinos Parry yn apelio am gyfraniadau i gynnal mynwent Sant Mihangel, Llanrug. Ychydig o drigolion yr ardal a wŷr fod tair mynwent o amgylch hen eglwys blwyfol Llanrug. Yn union ger yr eglwys ei hun mae'r hen fynwent blwyfol, ac y mae'r cyfrifoldeb am ei thacluso ar ysgwyddau'r Cyngor Cymdeithas. Mae ei ffiniau wedi eu dangos gan y gwahanol goed ynn sy'n ei chysgodi. O'i chwmpas mae'r fynwent eglwysig, ac wrth ochr honno mae'r Fynwent Rydd, neu'r Fynwent Newydd, sydd eto o dan ofal y Cyngor Cymdeithas.

Ers peth amser bŵm yn y broses o gofnodi arysgrifau oddi ar gerrig beddau yr hen fynwent blwyfol. Mae dros bedwar cant o feddau yno'n unig. Bellach, rwyf wedi cofnodi pob un ohonynt, ac eisoes wedi cychwyn ar y dasg anferthol o gofnodi'r cannoedd yn y fynwent eglwysig.

Noda Llinos Parry iddi

ddarganfod bedd yn dyddio yn ôl i 1750 yn y fynwent. Yr hynaf i mi ei ddarganfod yno yw bedd Ann, merch John Rowlands o Blastirion, a gladdwyd ar Awst 4ydd, 1729. Mae'r bedd hwn yn sownd wrth wal yr eglwys, a'r arysgrif yn aneglur iawn erbyn heddiw gan nad carreg o lechfaen sydd ar y bedd, ac y mae'r tywydd wedi hindreulio'r arfbais a nifer o'r llythrennau oddi arno. Ar ben hynny, mae yna haen drwchus o gen wedi tyfu drosto. Mae hen draddodiad yn yr ardal yn dweud bod Ann Rowlands wedi gwrthod mynychu'r eglwys un bore Sul am ei bod yn rhy brysur yn cribo'i gwallt laes, ac iddi gael ei tharo'n farw yn y fan. Dywed traddodiad arall fod siâp pen merch â thresi o wallt hir i'w gweld ar y garreg fedd pe tywelltir dŵr drosti!

Ond i symud o fynwent Llanrug i'r Waunfawr. Cefais wybodaeth am le arbennig yn yr ardal honno a oedd 'out of bounds' i blant y Waun am fod nifer o blant ifanc wedi eu claddu yno — ond nid mynwent swyddogol mo'r fan. Methais hyd yma a chael cadarnhad i'r stori hon. Os oes rhywun â gwybodaeth, anfonwch air rhag blaen.

Yn agos at y lle o'r enw Bryn Fynwent yn Waunfawr mae Bryn Beddau neu Bryn-y-beddau. Darganfuwyd yno wrn yn cynnwys llwch. Yn ôl archaeolegwyr, roedd yr wrn yn dyddio o gyfnod Oes y Pres, sef tua 1,800 hyd 600 Cyn Crist. Oes bosib i gof gwerin am fangre claddu oroesi am gyfnod mor hir? Byddai unrhyw wybodaeth am y claddfeydd hyn yn ardal Waunfawr yn ddiddorol. Cofiwch gysylltu os gwyddoch am draddodiadau neu straeon ynglŷn â'r lleoedd hyn.

Ymholiadau neu wybodaeth am hanes bro'r 'Eco'? Cysylltwch y Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (0286) 673515.

APÊL AT FUSNESAU BYCHAIN

Er mwyn ceisio darganfod anghenion busnesau bychain yr ardal penderfynodd Antur Padarn, yn eu cyfarfod ar nos Iau, Medi 15, i ddosbarthu holiaduron er mwyn cael eu hymateb. Fel y cadarnhawyd mewn adroddiad diweddar gan TARGED, Cyngor Hyfforddi a Menter, mae 85% o fusnesau Gogledd-orllewin Cymru yn cyflogi llai na 10 o bobl. Felly, mae hyn yn dangos pa mor allweddol i'r economi leol yw y busnesau hyn. Prif bwrpas yr holiadur fydd ceisio cael gwybod pa wasanaethau y byddai'r busnesau bychain hyn yn eu defnyddio er hwyluso eu busnes pe baent ar gael yn lleol.

Os ydych yn berchennog ar fusnes bychan (h.y., yn cyflogi tri neu bedwar o weithwyr) yn Nyffryn Padarn, yna fe hoffai Antur Padarn i chwi gysylltu â hwy ar gyfer llenwi'r holiadur. Mae modd cael copi o'r holiadur trwy gysylltu â Delyth Tomos, Tan y Cae, Tan y Coed, Llanrug.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar nos Fercher, Hydref 19eg, yn yr Ystafell Gymuned, Penisarwaun, am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Wavell Roberts CIGYDD London House LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CYNGOR CYMDEITHAS LLANDDEINIOLEN

Mae Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen wedi tynnu sylw'r Cyngor Sir at y ffaith fod yna nifer o gamfeydd ar lwybrau cyhoeddus y plwyf sy'n achosi trafferthion i'r henoed. maent yn gofyn i'r Cyngor Sir ystyried peidio â gosod camfeydd yn y dyfodol.

Mae Cyngor Arfon wedi cario allan welliannau ar y llwybrau ym Mynwent Macpelah, Deiniolen, a phenderfynwyd anfon gair i ddiolch iddynt am y gwaith safonol a wnaed.

Bydd yn ofynnol i bob mudiad gwirfoddol, fel Ysgolion Meithrin, Eisteddfodau Lleol a Neuaddau pentrefi, sy'n awyddus i'r Cyngor ystyried eu ceisiadau am roddion, anfon eu ceisiadau ynghyd â chopi manwl a chywir o'u mantolen ariannol i Glerc y Cyngor, Selwyn Griffith, Crud-yr-Awen, Penisa'rwaun, cyn Hydref 12fed. Ni ellir ystyried unrhyw gais oni dderbynnir mantolen ariannol.

Mae'r Cyngor yn falch fod y Cyngor Sir o'r diwedd wedi lledu'r ffordd ar dro Meillionydd, Penisa'rwaun. Gobeithio y bydd gwaith cyffelyb yn cael ei wneud ar yr ochr arall i'r pentref, ger Cartre'r Henoed, yn y dyfodol gan fod y tro hwn yn gul ac yn beryglus yn ogystal.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047



SIOP GREFFTAU
CAFFI
CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. – 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

Bistro
43 - 45

Stryd Fawr
LLANBERIS. Ffôn 871278

*Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w dewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis*

O SIAMBAR SELWYN

Mae gen i ddalen wen lân o bapur o 'mlaen i. Hanner awr wedi saith y bore ydi hi, a'r dyddiad yw Medi 16eg, 1994. Rydwi eisoes wedi dechra sgwennu. Ers pan rydwin fos arna fi fy hun, ac yn ennill amball geiniog wrth weithio tipyn ar fy liwt fy hun — rydwi'n hoffi dechra gweithio'n gynnar yn y bora. Mae'n braf cael cysuro fy hun fod gen i 'half-day' bob pnawn — rhywsut. Does na 'run diwrnod yn mynd heibio na fyddai'n sgwennu rwbath. Mi glywais i ddreifar lori yn deud wrthai unwaith fod diesel yn 'i waed o. Dwi'n saff fod inc, neu yn hytrach jiws beiro yn fy ngwythiennau inna hefyd. Rwy'n ymlacio wrth sgwennu. Rwy'n cael pleser.

Mae fy ystafell weithio i (y stydi felly) yn wynebu Eglwys Penisa'rwaun. I feddwl bod na dros 110 o flynyddoedd wedi llithro i'r gorffennol ers i garreg sylfaen yr hen eglwys gael ei gosod. Dywedir i'r eglwys gael ei chyflwyno i Santes Helen — mam Cystenyn Fawr. Costiodd £18,000 i'w chodi. Mae'n dal i edrych yn gadarn, ac yn gwarchod gardd o feini mud. Ond meini sy'n llefaru'n dawel wrth sawl un. Meini sy'n nodi man gorwedd anwyliad yr hen fro 'ma.

* * *

Mae'r adar yn canu ers meityn, ac mae'r byd yn dechrau deffro. Cym yn cyfarch cym ar y ffordd gyferbyn. mae'n fore oer, barugog, ac mae ias diolchgarwch eisoes yn y tir. Mae'r haul yn sbecian dros ysgwydd yr Elidir — Haul oer, y bore cynnar. Llwynog o haul?

Bob tro y teimla i ias barrug mi fyddai'n cofio am y ferch fach honno yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Gofynnais i'r dosbarth — 'Beth yw barrug?' A'r ateb a gefais oedd, — 'Gwair yn crio, Syr.' Ydy, mae pob plentyn yn fardd ar ryw gyfnod yn ei fywyd. Pan ofynais iddi, — 'Pam roedd y gwair yn crio?' Ateb y bardd

ifanc oedd — 'am ei bod hi'n oer yn y bore, Syr.' Diolch am naturioldeb plentyn ynté.

Barrug neu beidio, mae 'Morgan Tomos' yn ei lordio hi'n bawenog ar draws yr ardd 'cw, o gyfeiriad yr eglwys. Mae'n debyg gen i bydd y 'Llanc' yn 'i ddilyn o cyn hir. Y ddau wedi bod ar y 'shifft nos'. Dylwn egluro mai cathod yw 'Llanc' a 'Morgan Tomos'. Bydd Morgan yn galw acw weithia. Aiff rownd y tŷ acw yn fusnesgar, gan archwilio pob twll a chornel. Ond fydd o ddim yn hapus acw. Na, does na ddim plant yng Nghrud-yr-Awen, ac mae Morgan wrth ei fodd yng nghwmni plant. Morgan ydi'r unig gath y gwn i amdano sy'n gyfrifol am ddiweddu oes o leia' dwy wiwer a dau Jac Do. Ac yng nghartre Morgan Tomos y cyfarfu bwji un o'r cymdogion ei 'drist cyn ei amser dranc' pan ddaeth yno i gael ei warchod. O ia, cythral o gath ydi Morgan Tomos. Heliwr o fri. Rwy'n cael pleser wrth wyllo Morgan.

Mae'r fan bôst newydd basio. Anamal iawn bydd y postmon yn pasio'r tŷ 'ma. Yn wir mi fydd 'na rhyw wacter yn y diwrnod rhywsut os na ddisgynith 'na amlen i'r blwch llythyrau 'cw.

Mi a i lawr i godi'r llythyrau ac mi gymrai damaid o frechwast 'run pryd. Ma' hi bron yn wyth o'r gloch, ac mae'r ddalen wen â oedd yn wag hanner awr yn ôl, rŵan yn ddu gan eiriau. Mi gymrai seibiant bach rŵan.

* * *

Dwi wedi symud ystafell. Rydwi'n dyrchafu fy llygaid tua'r mynyddoedd rŵan. Mi fyddai'n hoffi sylu'n synfyfyriol ar y mynyddoedd. Ma' hi'n fore bendigedig, ac mae'r Wyddfa a'i chriw mewn gwisgoedd glas tywyll. Does 'na wahanol fathau o lās dudwch? Mi fyddai'n edmygu cadernid y mynyddoedd, ac mi fyddai'n teimlo'n euog na fu i mi lusgo fy nhraed a dyrchafu fy llygaid yn

amlach tuag atynt pan oeddwn ychydig yn iau. Dwi'n teimlo'n ddiogel rhywsut a rhain yn gylch o nghwpas i.

Mae Cefn Du mewn gwisg o borffor. Mae siol wen dros gopa'r Wyddfa.

* * *

Sŵn ceir yn chwyrru. Drysau'n clepian. Athrawon a phlant yn mynd i'r ysgol. Dwi'n colli cwmni plant. Mae arna' i ddyled fawr i'r plant y ces i'r fraint o'u dysgu. Dwi'n cael pleser o'u gwyllo nhw'n chwarae, a gwrandao arnyn nhw. Biti bod nhw'n chwarae'n Saesneg cymaint — ond dyna fo. Ma' nhw'n llawn bywyd ac yn hapus.

* * *

Gwell i mi agor y llythra 'ma. Llythra busnas i gyd yn ôl 'i golwg nhw. Does 'na neb yn mynd i drafferth i sgwennu 'llythyr-hel-clecs' i'w gilydd heddiw. Na, daeth y ffôn i ladd y llythyr, gwaetha'r modd.

Mi a i fyny i'r oruwch-ystafell eto i 'neud dipyn o waith, ac mi ddoi lawr ymhen tua awr i gael oren ffres a chip sydyn drwy'r Daily Post. Bydda, mi fydda i yn bwyta oren ffres bob bore, ac yn cymryd llwyaidd o Cod Liver Oil hefyd. Ydyn nhw'n llesol i mi? Wel, ma' gen i ffydd ynddyn nhw beth bynnag, fel ma' gen i ffydd mewn cymryd tropyn o frandi neu groper o wisgi cyn mynd i'r ciando.

Drapia'r ffôn 'na...! Cyngor Sir oedd 'na. Wedi cael cŵyn am un o'r 150 o lwybrau cyhoeddus sy'n nadreddu drwy blwy' Llanddeiniolen. Oes cofiwch, ma' 'na gymaint a hynny o lwybrau ar fap y plwy' 'ma. Hanner can milltir o lwybrau. Wel, 44¾ milltir i fod yn fanwl gywir. Pwy fesurodd nhw ys gwn i?

Pam dwi'n dal i sgwennu paetha' fel hyn dudwch? Pam dwi'n dal i droi'r tudalennau gwyn 'ma yn ddu? Fasa' rhywun yn meddwl na does gen i ddim gwaith i'w wneud. Gwaith? Oes digon ohono fo. Rydwi wrth fy modd bod yn brysur. Prysur hefo fy mhleserau ynte. A diolch i'r drefn rwy'n cael digon o waith.

* * *

Rhaid i mi baratoi'r llyfr 'na ar gyfer y wasg. Dwi wedi penderfynu ar y teitl, sef *A Dyma'r Ola*. Fe gaiff Leah Owen ddewis teitl i'r llyfr o

ganeuon rydan ni yn bwriadu ei gyhoeddi ar y cyd, gan na dydw i yn deall dim ar fiwsig. Mae nodau miwsig ar bapur fel penabyliad yn hongian ar wifrau telefon i mi.

Rhaid i mi orffen y ddwy sgript 'na hefyd, ac mae gen i gyfansoddiadau tair eisteddfod i'w beirniadu. Cofnodion ac Agenda'r Cyngor i'w paratoi. Ydi, mae'n braf bod yn brysur.

Dwi isio pacio hefyd — 'mae rhywbeth yn galw draw'. O mi geith Myra bacio. Fuo gen i rioed fynadd i bacio — nag i ddad-bacio o ran hynny.

Rhaid i mi dynnu'r ewinedd o'r blew, 'ne cha' i ddim 'half-day' y pnawn 'ma — heb sôn am wyliau.

* * *

Nefoedd fawr. Dwi newydd sylweddoli. Tydwi ddim wedi llunio ysgrif ar gyfer y Siambar, a minnau ar fin codi mhac.

Rhoswch — ma' gen i syniad, ac mae'r ddau Olygydd yn hogia bach ddigon clên, chwarae teg iddyn nhw. Mi tria i hi:

Mr Golygydd, Gan ei bod hi'n ben set arna i, a finna ar gychwyn i Madrid, tybed a fyddwch chi garediced â derbyn y sylwadau brysiog, blêr hyn ar gyfer y Siambar am y tro. Mi ofala' i y cewch chi rhywbeth mwy sylweddol y tro nesa' — gobeithio. Diolch.

* * *

Wel, ar f'enaid i. Mae Morgan Tomos wedi bod yn hela eto. Na, nid bwji y tro hwn — na wiwer, na Jac Do chwaith, ond 'Jerry' o lygoden fach sy'n gwingo yng nghrafangau yr hen 'Dom'.

'Anodd tynnu cast o hen geffyl,' medd yr hen air ynte — ac o hen gath hefyd, dd'wedwn i.

* * *

Ond dyna fo — dal llygod ydi gwaith cath ynte. Gwell i minnau wneud 'chydig o waith rŵan hefyd. Mi dara i olwg dros gyfansoddiadau barddonol Eisteddfod Sefydliad y Merched. Cystadleuaeth y Gadair. Cyfansoddi Soned ar y testun 'Y Tymhorau'. Dewcs, deg yn cystadlu — tair yn Saesneg a saith yn Gymraeg. Yn wir, ma'r ledis ma'n ca'l hwyl arni. Ydyn wir.

Drapia'r ffôn 'na eto!... Na, chai ddim 'half-day' pnawn 'ma. Fory ella?

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petröl neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (0286) 673559

MOT **AA** **RAC** **Selected**

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

'Un funud fach . . .' GOFYN A DIOLCH

Mae'r Wyl Ddiolchgarwch wedi dod heibio unwaith yn rhagor, a ninnau yn cael ein hatgoffa am yr holl fendithion a gawn gan Dduw. Boed i Dduw ei hun fendithio'r diolch a'r gofyn yn ein hoedfaon yn ystod yr Wyl eleni.

Ia, y diolch a'r gofyn. Mae'r ddau yn mynd law yn llaw â'i gilydd. Does dim rhaid bod yn glyfar iawn i wybod y gallwn ofyn am bob math o bethau a pheidio diolch amdanynt. Rydan ni i gyd yn gwneud hynny ar brydiau mae'n siŵr. Mae'n hawdd iawn anghofio diolch i bobol eraill, a pheidio cydnabod anrheg neu gymwynas. Ac mae'n hawdd gofyn i Dduw am wahanol bethau heb ddiolch iddo amdanynt.

Byddai pawb sy'n credu yn Nuw yn cytuno mae'n siŵr nad felly y dylai hi fod. Trwy beidio diolch onid ydym yn ei sarhau Duw ei hun? Ond eto, mae Ef yn dal i gofio amdanom, ac yn rhoi o'i ddaioni i ni o'r newydd bob dydd.

Mae peidio diolch yn beth amhriodol, ac mae hefyd yng gallu bod yn beth peryglus. Mae'n awgrymu nad ydym yn ymwybodol o'n dibyniaeth ar Dduw am ei holl ddaioni. Mae'n awgrymu ein bod yn colli golwg ar ofal mawr Duw a'r ffordd y mae'n darparu ar ein cyfer. Mae'n awgrymu ein bod yn colli golwg arno Ef ei hun, ac yn ymbellhau oddi wrtho. Ac os digwydd hynny, buan iawn y dechreuwn beidio gofyn am ddim ganddo chwaith.

Meddai Paul yn ei lythyr at y Philipiaid: 'Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym mhob peth gwneir eich deisyfiadau yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch'. Heb yr ymddiriedaeth yn Nuw sy'n gwneud i ni ofyn ganddo a diolch iddo, mi fydd pob math o bryderon yn cael y gorau arnom. A gwyddom mor hawdd yw poeni am bethau a digwyddiadau. Mae sylweddoli ein bod yn dibynnu ar Dduw ffeind a ffyddlon fel ein bod yn barod i ddod ato a dweud beth sydd ei angen arnom yn dda i ni. Pwyswn arno, gan ofyn am ei roddion a'i nerth a'i ras bob dydd.

JOHN PRITCHARD

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390



Plant newydd dosbarth Mrs Brooker . . .

Lleisiau Lliwedd: Ar ôl cyfnod byr o seibiant dros wyliau'r haf ail-gychwynnodd y côr ar ei raglen brysur. Braff oedd cael croesawu aelodau newydd ar ddechrau'r tymor. Ddydd Sul, Awst 28ain, cynhaliwyd gwasanaeth gan y côr yng nghapel Cefnywaun, Deiniolen, a'r wythnos ganlynol gwasanaeth arall yng Nghapel Coch. Nos Iau, Medi 8fed, bu'r côr yn diddori'r ymwelwyr yng Ngwsty'r Fictoria. Y mae'r côr yn awr yn edrych ymlaen at gynnal noson yng nghapel Salem, Caernarfon, ar Hydref 3ydd. Braint hefyd oedd cael cyflwyno £50 at Apêl Tŵr Eglwys St. Padarn, £100 at Antur Waunfawr a £100 at Apêl Rwanda. Daw boddhad mawr o feddwl bod eraill yn elwa allan o fwynhad y côr o ganu a diddori.

Capel Coch: Mae'r Cyfarfod Plant wedi aildechrau erbyn hyn, ac edrychir ymlaen at gyfarfodydd hwyliog dros y ddau dymor nesaf. Yr un yw'r patrwm eleni eto. Cynhelir y cyfarfod bob prynhawn Mawrth ynystod tymor yr ysgol. Mae'r plant yn dod i festri Capel Coch yn syth o'r ysgol ac mae'r cyfarfod yn gorffen am 4 o'r gloch.

Undeb y Mamau: Brynhawn dydd Mawrth, 13eg o Fedi, cynhaliwyd cyfarfod o Undeb y Mamau yn Eglwys St. Padarn. Gan mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliu'r haf cafwyd Gwasanaeth gan y Deon Gwlad, y Parchedig Idris Thomas, ac ef hefyd oedd yn gweinyddu y Cymun Bendigaid. Mr Gareth Jones oedd y cyfeilydd. Darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur gan Mrs Betty Humphreys, Mrs Audrey Evans a Mrs Dilys Phillips.

Mrs Enfys Parry a Mrs Dilys Phillips oedd yn ymorol am y baned. Diolchwyd gan Mrs Audrey Evans. **Ysgol Dolbadarn:** Croeso cynnes iawn i'r holl blant bach newydd. Gobeithio eu bod yn dechrau setlo yn ein plith erbyn hyn. Mae Mrs Nia Medi Jones wedi dod atom yn athrawes yn Adran y Babanod; gobeithio y bydd hi'n hapus yn ei gwaith yn yr Ysgol. Croeso hefyd i Miss Liz Williams sydd wedi ei phenodi yn weinyddes feithrin yn yr Ysgol. Croeso'n ôl i Mrs Eirian Owen wedi ei gwaelled y llynedd; mae pawb yn falch o'i gweld yn ôl wrth ei gwaith. Mae'n dda gennym ddeall hefyd bod Mrs Nan Humphreys yn gwella wedi iddi fod yn yr ysbyty yn ystod gwyliu'r haf, a deallwn ei bod ar ddychwelyd i'r Ysgol erbyn hyn. Anfonwn ein cofion gorau yn naturiol at brifathrawes yr Ysgol, Mrs Elisabeth Roberts, sydd wedi anafu ei chefn. Gobeithio yn arw y byddwch yn gwella'n fuan ac y cewch chithau ddod yn ôl atom cyn gynted â phosibl, Mrs Roberts.

Llongyfarchiadau mawr i Mr Rhys

ap Elwyn a'i wraig Bethan ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Catrin Medi.

Cawsom gyfle i groesawu myfyrwyr o'r Iwerddon i'r Ysgol am ddiwrnod ar ddechrau'r tymor. Cawsant gyfle i ymweld â'r dosbarthiadau a gweld y plant wrth eu gwaith.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr mis Awst — £35: Mrs E. Jones, 3 Field Terrace (190); £25: Mrs M. Jones, 19 Maes Padarn (88); £15: Mrs E. Jones, Coed y Ddôl (35); £10: Mrs L. Jones, Bod Gwilym (175); £5: Mrs C. Hughes, 1 Stryd Yankee (90). Enillwyr mis Medi — £35: D. Roberts, 50 Maes Padarn (70); £25: Mr ap Elwyn, 19 Cwm Silyn, Caernarfon (67); £15: Mrs B. Owen, 90 Maes Padarn (136); £10: Mrs Y. Jones, Maenol, Caernarfon (12); £5: Mrs M. Lloyd, 22 Dôl Elidir.

Os oes rhywun ohonoch yn awyddus i ymuno â Chlwb Ffrindiau'r Ysgol a chael cyfle i ennill gwobrau ariannol bob mis cysylltwch â ni yn yr Ysgol am ragor o wybodaeth.

Pêl-droed: Mae tîm dan 11 oed Llanberis wedi cael dechrau da i'r tymor newydd. Enillwyd y ddwy gêm gyntaf yn erbyn Cae Glyn a Bethel 'B'. Roedd ennill y gêm yn erbyn Cae Glyn yn gryn syndod o gofio bod y tîm o Gaernarfon wedi sgorio 30 gôl yn ein herbyn yn y dair gêm a gafwyd rhyngom o'r blaen! Bydd y plant yn brysur iawn yn ystod y misoedd nesaf; mae 26 o gemau yn ystod tymor yn gynghrair.

Diolchiadau:

Dymuna Selwyn Pritchard, Madryn, Stryd Newton, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau ac anrhegion, a phob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd am ofal caredig y meddygon a'r gweinyddesau yn ysbytai Gwynedd a Lerpwl.

Dymuna Nia G. Griffiths, 52 Dôl Elidir, ddiolch i bawb a gyfrannodd yn ariannol tuag at ei 'elective' (cwrs Meddygaeth) yn Ysbyty Bethesda Memorial, Washington, Yr Unol Daleithiau.



Derlwyn Roberts yn cyflwyno'r darian i Thomas John Roberts er cof am ei dad.

Tarian Goffa: Mae pob math o dylsau a chwpanau yn cael eu cyflwyno yn ystod nosweithiau gwobrwy blynyddol clybiau pêl-droed yr ardal erbyn hyn. Ond mae gan Glwb Llanberis un darian newydd a fydd yn golygu llawer i'r rheiny sydd wedi dilyn hynt a helynt y tîm dros y blynyddoedd. Un o gefnogwyr selocaf a mwyaf brwd Llanberis dros flynyddoedd maith oedd y diweddar William Roberts, neu Wil Lôn Bost fel yr adwaenid ef gan bawb. Bu ganddo

gysylltiad agos iawn â'r Clwb a rhoddodd wasanaeth maith fel aelod o'r pwyllgor. Mae'n chwith iawn hebdo yn y cae pêl-droed ar brawn Sadwrn. Yn ystod parti blynyddol y Clwb ddiwedd y tymor diwethaf cyflwynodd ei deulu darian er cof amdano. Bydd y darian hon yn cael ei rhoi yn flynyddol i brif sgoriwr y tymor. Mae'r Clwb Pêl-droed yn ddiolchgar am y rhodd ac yn falch y bydd un o'i gymwynaswyr yn cael ei gofio yn y ffordd hon.



. . . . a dosbarth Mrs Jones, Medi 1994.

Y Llaw sy'n Siglo'r Crud . . .

3. ATGOFION A PHROFIADAU PLENTYN

gan Selwyn Pritchard, Llanberis

A deud y gwir ar Taid a Nain roedd y bai i gyd yn y lle cyntaf. Y nhw sy'n gyfrifol fy mod i'n ceisio corlannu tipyn o hanes y cyfnod ofnadwy, ond diddorol, yma rŵan. Doedd fy mam hyd yn oed ond prin wedi'i geni, heb sôn amdana i, ond gyda chymorth dychymyg plentyn gwelais, ac fe dystiais, i'r cyfan a ddigwyddodd. Do, fe fûm yn ffarwelio â'r milwyr wrth iddynt orymdeithio drwy Stryd Fawr Llanberis. Gwelais y gwragedd a'r mamau yn sefyll o flaen gwesty'r Prince of Wales bob dydd yn disgwyl am y postmon gyda'r newyddion diweddaraf o'r 'ffrynt'. Dyma i chi'r rheswm pam:

Mae deugain mlynedd a mwy wedi mynd heibio bellach ers y diwrnod hwnnw pan droediais, drwy'r eira ar ddiwrnod oer a gwyntog, i dy fy nain. Deuddeg oed oeddwn i ond mae'r profiad a gefais y diwrnod hwnnw wedi aros ar fy nghof hyd heddiw. Roedd gen i ddau gartef yr adeg honno — 'Adra' oedd enw un, a 'Tŷ Nain' oedd y llall.

Roedd 'na dynfa arbennig i dŷ nain, oherwydd roedd yno ryw ryddid disgybledig i mi wneud beth a fynwn a mynd i'r lle a fynwn. Ond llugoer iawn oedd y croeso a gawn mewn un man arbennig yn y tŷ, a fan'no oedd y gegin gefn lle'r arferai Nain baratoi bwyd, ac yn enwedig pan yn paratoi swper chwarel i Taid pan ddoi adref o'i waith. Efallai fy mod i o dan draec ac yn amharu ar ddefod sanctaidd y gyfundrefn, ond buan y deuthum i wybod nad oedd hynny'n wir. Roedd lle i bawb . . . ac roedd disgwyl i bawb fod yn eu lle.

Pan agorais y drws ar y dydd arbennig hwnnw doedd neb yn y tŷ, ac oherwydd fy mod yn meddu ar gyweinrwydd naturiol plentyn dyma ddechrau prowla. Yn rhyfedd iawn y man cychwyn oedd yn y gegin gefn, oherwydd yn y fan honno roedd drôr arbennig a fu'n gogleisio fy chwilfrydedd ers tro byd. Gyda dwylo nerfus bachgen ysgol mentais ei hagog, ac yna — fel Pandor a'i boc dewinol gynt — rhuthrodd holl ryfeddodau'r

gorffennol fel niwl amdanaf. Roedd yno ddarlun o filwr gyda'i 'gwn mud' yn gorwedd ar ei ysgwydd; darlun o ferch ifanc yn pwyso wrth ddrws rhyw fwthyn tlawd; hen fotymau; cyllell boced; bathodyn neu ddau; ond, yn nghrombil y cyfan i gyd roedd yna deulu bach clyd o fedalau. Doeddwn i'n deall dim ar y 'sgwennu arnynt, ond cofiais wedyn fod Nain wedi dweud rhyw dro bod Taid wedi bod yn sowldiwr yn Ffrainc, a hynny cyn i Mam, na neb arall, gael ei geni yn Nyffryn Peris.

Erbyn hyn roedd dirgelion y gegin gefn yn hysbys i'r byd a'r betws a bûm yn disgwyl yn hir y diwrnod hwnnw am weld Taid yn dod adref o'r chwarel. Wedi iddo molchi, newid ei ddillad gwaith a bwyta, fe eisteddodd o flaen y tân a'r mwg o'i getyn yn cyrllo'n gychod bach gwynion i fyny i'r to. Gwyddwn ar y gorau fod y ddau wedi bod yn trin a thrafod campweithiau'r troseddwr bach ymhell cyn hyn; ond rhywsut teimlais bod eglurhad i'r holl ddirgelion ar fin cael ei ddatgelu ac eisteddais i wrando.

'Pan oedd dy nain a minnau'n ifanc roedd y rhan fwyaf o ddynion y dyffryn yma yn gweithio yn y chwaral — doedd dim gwaith arall i'w gael. Roedd bywyd yn galed ond rhywsut llwyddodd llawer i gael dau-benllinyn-ynghyd. Cofia di roedd rhai teuluoedd yn methu weithia'



DRAENOG

Cadeirydd Côr Meibion Dyffryn Peris wedi blino ar ôl prysurdeb yr haf?



ac mi roedd plant a phobol ifanc yn marw yn 'u dyddia' cynnar oherwydd diffyg bwyd da, yn ogystal â llawer o afiechydon heintus. Gadewais yr ysgol pan oeddwn yn ddeuddeg oed a mynd i weithio i'r chwaral. Ond pan briododd dy nain a minnau daeth newid mawr i'r ardal. Gwyddwn ers tro fod rhywbeth ar fin digwydd, ac yn 1914 fe dorrodd rhyfel fawr allan a throdd y byd yn bendramwnagl.

'Yn fuan ar ol y 'Dolig, ar ddechrau 1915, roedd cynnwrf mawr yn y pentref.

'Roedd pawb yn sôn am y Rhyfel a chynhaliwyd cyfarfodydd bron ym mhob pentref i geisio denu mwy a mwy o hogia ifanc i ymuno â'r fyddin. Nid oedd yn rhaid i ni fynd, ond roedd llawer yn gweld bywyd newydd, anturus o'u blaenau. A chan fy mod wedi priodi, ac yn byw mewn cartref cysurus yn Llanberis, doeddwn i ddim yn gweld pwrpas mynd i ryfel. Ond, ym mis Ionawr 1916, daeth tro ar fydd. Un bore daeth y postmon efo llythyr wedi ei gyfeirio i mi. Roedd yn llythyr pwysig iawn oherwydd roedd y Brenin ei hun wedi ei anfon! Trannoeth wedi i mi fynd i'r chwaral cefais wybod bod llawer o'r hogia eraill wedi cael yr un llythyr! Sylwedolais wedyn fod yn rhaid i mi fynd i'r fyddin a gadael y cyfan — fy

nghartref, fy nheulu, y capel a'r chwarel — a mynd yn sowldiwr ymhell dros y môr i Ffrainc. Mae'r hanes yn rhy hir i mi adrodd wrtho' ti heno, ond fuo Llanberis 'ma, na'r ardaloedd o gwmpas, byth 'run fath wedyn. Aeth cannoedd o fechgyn ifanc i ffwrdd ond ychydig iawn ddaeth yn ôl.

'Lladdwyd a chlwyfwyd y rhan fwyaf ohonynt ac am gyfnod hir fe ddaeth tristwch mawr dros yr ardal. Peth ofnadwy oedd gweld mamau yn tyrru i sgwâr y pentre bob bore i holi hynt a helynt eu gwŷr a'u meibion. Yn ystod y blynyddoedd pan oedd y Rhyfel ar ei gwaethaf, roedd pob siop yn y pentref wedi'i chau. Gadawyd y rhai oedd ar ôl mewn dyffryn a phentref yn llwm a gwag — oherwydd nad oedd llawer o bobol yma — ond y rhai oedd yn rhy ifanc i fynd i'r fyddin neu y rhai oedd yn rhy hen.'

Mis Mawrth 1994:

Mae Taid a Nain yn eu beddau ers blynyddoedd bellach ond erys eu geiriau yn fyw yn fy nghyfansoddiad hyd heddiw. Pan glywn y gwynt yn sgowllo drwy strydoedd gwag y pentref y noson o'r blaen fe'm hysgogwyd i geisio corlannu ychydig o hanes yr ardal, fel teyrnged fechan i'w haberthion yn eu dyddiau blin.

(I'w barhau)



**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

**Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)**

**AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM**

**FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)**

2 TAN Y BRYN, BETHEL 

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim

**CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!**

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160



Y PEIRIANT RHEDEG

Mae'r hen ddywediad Seisnig yn dweud fod bywyd yn dechrau'n ddeugain oed. Bron iawn na ellid dweud fod hynny wedi bod yn fwy na gwir i'r rhedwr lleol, Gwynfor Owen, eleni. Mae Gwynfor, sy'n wreiddiol o Lanberis ond bellach yn cartrefu yn Llanrug, wedi gwneud ei farc ym myd y rhedeg mynyddoedd ers rhai blynedd bellach, ond cyrhaeddodd y copa (!) eleni gyda nifer o fuddugoliaethau ysgubol.

Dechreuodd ei yrfa athletaidd fel pêl-droediwr; yn aelod rheolaidd o dîm Llanrug am lawer o dymhorau, ond cafodd ei demtio i roi cynnig ar Ras y Wyddfa ar ôl gwylio'r ras gyntaf un yn cael ei chynnal o ddrws y 'Prince of Wales' yn Llanberis. Rhedodd ei ras gyntaf yn 1979 a bu'n gystadleuydd brwd ers hynny. Cystal ei ddawn am rasio i fyny mynyddoedd fel y'i dewiswyd i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau'r Byd yn Keswick, Lloegr, yn 1989. Sylwer mai 'i fyny' mynyddoedd yw camp Gwynfor. Mae rhedwyr Ynysoedd Prydain wedi arfer gyda rاس mynydd sy'n anelu am y copa, ac yna'n dychwelyd i'r dyffryndir. Yng nghystadlaethau'r gwledydd Ewropeaidd a Phencampwriaethau'r Byd, dim ond ras i gopa'r mynydd sy'n cyfrif. 'Dyw dod i lawr yn ôl ddim yn rhan o'r ras! Ac y mae Gwynfor yn un o'r goreuon am redeg i fyny.

Gwnaeth argraff dda ar ddewiswyr tîm Cymru yn Keswick, ac roedd yn aelod o dîm Cymru yn Ras y Wyddfa y flwyddyn ddilynol. Braint arbennig iddo oedd cael rhedeg dros ei wlad ar ei steipan drws ei hun, fel petai. Talodd yr ymarfer caled ar ei ganfed iddo ac fe'i dewiswyd dros Gymru ym Mhencampwriaethau'r Byd yn 1992 yn yr Eidal, ac yn Ffrainc yn 1993. Teimlai Gwynfor fod ei yrfa ryng-wladol ar ben, oherwydd eleni roedd yn ymuno â grŵp oedran yr hynafgwyr — dynion dros 40 oed. Peth anarferol iawn yw i unrhyw un



Tua'r brig, Gwynfor.

o'r oedran hwn gynrychioli ei wlad mewn cystadleuaeth agored. Ond roedd y tymor wedi cychwyn yn addawol.

Fis Ebrill, mewn cenlli o eira a rhewynt ar Foel Famau yng Nghlwyd, roedd Gwynfor yn arwain tîm dros 40 oed Clwb Rhedwyr Eryri i fuddugoliaeth mewn Ras Bencampwriaeth Prydain. Ym mis Gorffennaf roedd yn gwneud yn union yr un gamp yn Ras Culter Fell yn yr Alban, ac o fewn pythefnos bydd yn gobeithio taro'r un uchelfannau eto yn y ras fynydd olaf y Pencampwriaethau Prydeinig yn Shelf Moor, gogledd Lloegr.

Mae'n debyg mai uchafbwynt y tymor rhedeg iddo oedd ei fuddugoliaeth yn Ras y Wyddfa eleni, ac er na chafodd ei ddewis yn aelod o dîm Cymru, eto'i gyd, Gwynfor oedd y Cymro cyntaf yn ôl i Lanberis yn y pymthegfed safle. Dim ond deg rhedwr

rhing-wladol oedd ar y blaen iddo, a'r rheiny i gyd flynyddoedd yn iau nag ef! Chwalodd Gwynfor y record i ddynion dros 40 oed o dros funud, ac yr oedd y record honno wedi ei thorri y llynedd o ddau funud. Felly, o fewn cwta ddwy flynedd dyna ddymchwel y record o dri munud! Coeliwch neu beidio, ond cyrhaeddodd Gwynfor y copa chwarter awr yn gynt na'r trê.

Mewn ras i ddewis aelodau tîm Cymru ar Grib y Ddysgl, daeth Gwynfor yn ail, gan hawlio'i le yn y tîm i ymweld â Berchtesgaden yn yr Almaen yng Nghwpan y Byd. Ras ar i fyny oedd hon, gyda dros 4,200 troedfedd o ddringo caled i'w wneud mewn wyth milltir. Roedd tua 150 yn cystadlu, a daeth Gwynfor i'r 78 safle. Nid yw'n ymddangos yn safle arbennig iawn, ond rhaid cofio bod tua 30 o'r rhedwyr wedi methu â gorffen y ras galed hon!

Mae'n werth cofnodi yma y math o ymarfer a wnaeth Gwynfor ar gyfer cynrychioli ei wlad yn yr Almaen. Yn ystod y penwythnos cyn y ras fe gynhaliwyd ras y Cnicht o bentre Croesor. Gan fy mod yn bwriadu rhedeg fe gynigiais i Gwynfor deithio yno efo mi yn y car, ond, roedd ganddo gynlluniau eraill. Bwriadai reidio'i feic o Lanrug i Groesor, rhedeg y ras, a reidio yn ôl i Lanrug wedyn. Roedd o 'Angan yr ymarfar' meddai, 'Mi

fyddai reidio'r beic i Groesor yn fy mlino ddigon rhag imi wthio f'hun yn ormodol a difetha fy siawns am ras dda yn yr Almaen!' Beth bynnag am flino na gwthio, fe ddaeth Gwynfor yn chweched yn y ras allan o dros hanner cant o redwyr, ac yn gyntaf yn y categori dros 40 oed. Dyna'r math o ymroddiad sydd ganddo i'w ddawn.

Er bod tymor rasio mynyddoedd bellach yn dirwyn i ben, tydi llwyddiannau Gwynfor ddim trosodd. Ganol fis Medi daeth yn gyntaf o'r holl redwyr ar ras Elidir; y tro cyntaf erioed iddo ennill ras fynydd yn erbyn cystadleuwyr o bob oed. Ac ar ddiwedd Hydref bydd unwaith eto yn teithio i Swydd Efrog fel rhan o dîm dros 40 oed Rhedwyr Eryri yng nghystadlaethau cyfnewid rasio mynydd Prydain. Gyda rhedwr fel Gwynfor yn arwain mae gobaith am fuddugoliaeth i'r Cymry.

A beth am ei obeithion yn y dyfodol. Oherwydd galwadau gwaith ni fu'n bosibl iddo redeg pob un o rاس Campwriaethau Cymru eleni. Yn 1995 mae'n bwriadu rhoi cynnig ar ennill y bencampwriaeth honno, a bydd gobaith da ganddo hefyd yn y pencampwriaethau Prydeinig i rai dros 40 oed. Tydi ardal Eco'r Wyddfa, bröydd Eryri, bryniau Cymru ac ucheldiroedd Ewrop ddim ond megis dechrau cynefino ag enw Gwynfor Owen.

DAFYDD WHITESIDE THOMAS

ERIC JONES

PENISARWAUN

Ffôn: 872421

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

- ★ Prisiau rhesymol
- ★ Spreio tu mewn a thu allan
- ★ Estimates am ddim

**OSMOND SHAW
DEINIOLLEN**

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

Heliwch eich traed am fargen i

SIOP ESGIDIAU GLENS

Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Camera yng ngofal Heulwen Huws, Argoed. Ffôn: 650556



'Plant newydd Ysgol Waunfawr ydan ni . . .'

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor o'r Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch, nos Lun, Hydref 31ain, pryd y ceir Noson Lawen yng nghwmni Côr Dyffryn Peris o dan arweiniad Mr Arwel Jones. Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd ymaelodi â'r Gymdeithas. Hefyd mae croeso i bawb o'r ardal ymuno â ni i fwynhau gwrando ar y côr am dâl rhesymol. Llywydd y noson fydd Mr Iolo Huws Roberts.

Diolchiadau:

Dymuna Iorwerth a Jane, Heli, ddiolch i'w teulu, perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y nifer fawr o gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar ar Ynysoedd y Cayman.

Dymuna Nia a Dylan Rhys Jones, Eryri Wen, Bod Hyfryd, ddiolch i bawb am y llu o gardiau a rhoddion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab bychan, Elgan Rhys. Diolch hefyd am yr holl gefnogaeth a gawsant yn ystod y pum wythnos y bu Elgan Rhys yn yr Uned Gofal Arbennig yn Ysbyty Dewi Sant. Diolch yn fawr i bawb.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Geraint a Veronica Owen, Cilfynydd, ar enedigath merch fach, Leah, chwaer fach i Marc, a thrydedd wyres fach i Mrs M. Owen, Bryn Gwylan.

Priodasau: Dydd Sadwrn, Medi

3ydd, bu dwy briodas yn y pentref — Yng Nghapel Croesywaun, gyda'r Parchg W. R. Williams yn gweinyddu a Mrs Rhian Ellis wrth yr organ, priodwyd Valmai Wyn, Cefn Coed â Paul Evans o Gaeathro. Mae'r ddau wedi cartrefu yn Stad Tŷ Hen.

Yn Eglwys Sant Ioan, a'r Parchg Eric Roberts, Bangor, yn gweinyddu, priodwyd Kevin Roberts, Sŵn-y-gwynt, ac Amy Louise o Ynys Manaw. Mae'r ddau wedi cartrefu yn Benllech, Môn.

Llongyfarchiadau a phob bendith i'r ddau bâr ifanc.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Eilir Ioan, Rhandir Mwyn, ar gyrraedd ei ddeunaw oed, a phob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Lesley Williams, Stad Tŷ Hen, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mrs M. A. Owen, Stad Tŷ Hen, sydd yn Ysbyty Eryri, ac at Mrs L. Pritchard, Bro Waun, a Mr Evan Hughes, Tref Eilian, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Dymunwn wellhad i Geraint Griffith, Bro Waun a Mr John Elwyn Roberts, Glaslyn, Bro Waun, ar ôl iddynt ddod adref wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Diolch: Dymuna Elfyn a'r teulu, Melfyn, Stad Tŷ Hen, ddiolch i'w cymdogion a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt, ac am y llu caridau a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.



'... a ninnau hefyd.'

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263



'Rydan ni newydd ddechra yn Ysgol Penisarwaun.'

Dyweddiad: Llongyferchir Dylan Williams, Careb, a Bethan Powell, ar achlysur eu dyweddiad. Pob bendith i'r ddau ohonoch.

Gwellhad: Da clywed fod Jean Jones, Bryntirion, yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty. Dymunir gwellhad buan i bawb ohonoch sy'n sâl yn y pentref. Brysiwch wella.

Adran Bentref yr Urdd: Bydd yr Adran yn ailgychwyn wedi gwyliau hanner tymor. Ceir manylion y gweithgareddau yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cydymdeimlo: Estynnir y cydymdeimlad llwyrfa â Gwyn a Phyllis, Rhosfair, ar farwolaeth sydyn brawd i Gwyn ac yntau ond 42 mlwydd oed.

Llongyfarch: Dymunir pob hwyl i Sioned Wyn ac Osian Dafydd fel Is-gapteiniaid Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch.

Genedigaeth: Ganwyd merch fach, Glesni Angharad, i Janet a Roderick, 12 Bryntirion, chwaer fach i Dion a Leanne. Pob hapusrwydd i chwi fel teulu.

Diolch: Dymuna Ron, Bronwen a theulu y ddiweddar Betty Eiddwen Hughes, 1 Brynhyfryd, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau

am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli gwraig, mam a nain annwyl a chariadus iawn a hynny mor frawychus o annisgwyl a sydyn. Bu'r holl eiriau caredig drwy ymweliadau, galwadau ffôn, y llu cardiau a llythyrau yn gysur mawr a chymorth. Diolchir yn arbennig i Mr Myrddin Jones a Mr Ifan Hefin Williams am y gwasanaeth teimladwy, i Mr Huw Alan Roberts yr organydd, a Mrs E. Jones am ddarparu'r lluniaeth. Diolchir am yr holl flodau hardd a phob cyfrniad tuag at Ymchwil y Galon.

Plygu'r Eco: Diolchir i'r rhai a ddaeth i blygu'r Eco yn Neuadd yr Eglwys. Diolchir hefyd i swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd.

GWASANAETHAU

DIOLCHGARWCH
EGLWYS SANTES HELEN
PENISARWAUN

dydd Sul, Hydref 23

10.30 a.m.: Y Cymun Bendigaid (dwylieithog)

Y Parchg Tegid Roberts

4.30 p.m.: Gosber Cymraeg

Y Parchg Ganon Richard Jones, Porthaethwy



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/facs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

PLAID CYMRU WAUNFAWR

SÊL CIST CAR

GYDA BWRDD OREN
A CHREISION

BORE SADWRN

HYDREF 8fed

am 10 o'r gloch

YM MAES PARCIO'R
GANOLFAN

Tâl: £3 y car

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

FORMAGGIO PER FAVORE!

Clic! o Eryri i Simeri

(Gai Williams o Ddeiniolen yn sôn am ei brofiad fel ffotograffydd yn yr Eidal.)

Ar 4 Mehefin 1994 aeth y cyfweiliad gyda Signor Dall Acqua yn annisgwyl o dda; a 24 awr yn ddiweddarach roeddwn yn cychwyn ar daith 17 awr mewn trên o Torino Porta Nuova yn y gogledd i Gatazaro Lido yn Calabria, ger sowdl yr Eidal. Roedd tri mis o waith swyddfa yn Torino wedi fy mlino — y prysurdeb swnllyd braidd yn ormod. Heb roi rhybudd o'm hymadawiad i'r cwmni, Levett SRL, ger Stadiwm Juventus, cychwynais ar daith i bentref gwyliau Valtur Simeri yn ne'r Eidal, lle roedd i fod yn ffotograffydd swyddogol y pentref.

Valtur yw un o'r cwmnïau gwyliau mwyaf yr Eidal. Mae ganddo 16 o bentrefi moethus yn yr ardal sy'n ymestyn o'r Alpau i Sisili, yn ogystal ag yn Morocco. Bob wythnos mae 600 i 1,200 o Eidalwyr yn mwynhau eu gwyliau yn y pentrefi hyn. Mae'r pentrefi o safon uchel, ac adlewyrchir hynny yn y prisau, rhwng £700 ac £800 yr wythnos. Mae'r tymor hir i'r gweithwyr yn parhau o fis Mehefin hyd at fis Medi. Erbyn hyn mae'n fis Awst ac mae pawb ohonom o staff 'Equipe' yn teimlo'n flinedig iawn. Ond fel pob tîm da mae pawb yn cyddynnu'n dda â'i gilydd.

Ar ddydd Sadwrn ar ddechrau wythnos y pentref mae Perlugi Bontempi 'Capo Villaggio' pennaeth y pentref yn ei gyflwyniad i'r cwsmeriaid newydd o ddigwyddiadau a gwasanaethau y pentref yn ein galw ar lwyfan y theatr. 'Dyma'r ffotograffwyr swyddogol . . . Y fi o Ddeiniolen a Pietro Maddedu o Ynys Sardinia. Pietro ydi'r printar — fo sy'n gyfrifol am yr holl waith yn y labordy — datblygu'r ffilmiau, gwneud ac arddangos y 'contact sheets' a printio archebion y cwsmeriaid. Fo ydi'r trydydd printar i weithio gyda mi — dim ond tri diwrnod barodd Gigi, gyda'i wallt Bob Marley; a mis

tenis mae'r cwrs golff, a glan y môr. Adeg i dynnu llun y plant yn chwarae, y cwpl hen yn sgwrsio'n hapus, y ddau gariad yn nofio ochr yn ochr. Ar ôl rhoi gwersi windsurf bydd Gionluca o Rufain yn trefnu cystadleuaeth — rhaid cael llun y tîm cyn cychwyn. Y ras yn cychwyn, rownd y 'buoy' a nhw yn y pellter — y gynulleidfa yn gweiddi eu cefnogaeth. Weithiau bydd Ezio yn trefnu cystadleuaeth hwylio canŵ sengl a dwbwl. Cyfle i dynnu lluniau sport gyda thipyn o emosiwn.

Bob dydd mae gemau gwahanol yn mynd ymlaen ar y



Disgwyl am y 'shot' nesa.

barodd Salvatore o Tonno hefyd. Mae Pietro yma ers mis a hanner. Dwi'n lwcus fel ffotograffwr yn gallu crwydro yn yr awyr agored yn fy flip-flops a shorts, â'r Canon EOS dros fy ysgwydd. Ond druan o'r printars mae'n rhaid iddyn nhw aros ymysg y cemegau, y peirianau a thywyllwch y labordy. Dyna eu gwaith a chan fod y lluniau yn gwerthu'n dda roedd y tâl pitw a gaed am y gwaith caled wedi bod yn ormod i ddau ohonynt — ac mae Pietro wedi dechrau cwyno yn barod!!

Mae fy niwrnod yn dechrau am 8.30 bob bore. Ar ôl ychydig oriau o gwsg — gan fy mod yn y Disgo tan yr oriau mân fel rheol — mae'n rhaid codi i rifo y 'negs' a ddatblygwyd y noson cynt — tua 300 o luniau. Wedyn, brecwast ysgafn a choffi Espresso cryf i wneud yn siŵr bod y corff yn dal yma! Adeg i grwydro pob rhan o'r pentref i gael lluniau'r cwsmeriaid yn cael amser da!

Bob bore bydd plant 6-10 oed y Mini Club yn cael gwersi Judo gan Massimo, ac yn gweiddi 'Origani?' ar dop eu lleisiau.

Lawr y llwybr mae tîm 'Equipe' tenis yn chwysu chwartiau yn rhoi gwersi. Pierluigi yn dangos y 'serve' i'r dechreuwyr, ac Alfio yn gneud i'r arbenigwyr ruthro ar hyd y cwrt — tipyn o joban cyrraedd y bêl. Bum can llath o'r cwrtiau

traeth — taflu'r ŵy, rasmus cyfnewid yn y môr, cystadleuaeth paentio'r cefnau (a weithiau bronnau), a bocce (fel bowls i ni). Bore dydd Gwener mae ras fawr y cychod hwyliu gyda 7-9 o bobl ym mhob cwch. Wrth lwc mae digon o wynt yn y rhan yma o Calabria!

Pythefnos yn ôl cafwyd mwy na 'pwff o wynt'. Roeddwn yn cael coffi ger y pwll nofio. Cyrhaeddodd y cymylau du, a'r glaw. Rhoddais ddeif i'r pwll achos daeth rhyw fath o hiraeth drosof wrth weld y glaw. Yn sydyn dyma genllysg yn disgyn a'r gwynt yn codi gan daflu'r cadeiriau a'r byrddau. Roedd yna 'hurricane' fechan yn ein taro. Roeddwn yn y pwll am ddeng munud cyffrous y storm. Roedd tipyn o waith wedyn i glirio'r holl lanast gan fod y ristorante fel pwll nofio.

Tua hanner dydd rhaid dychwelyd at y pwll nofio, lle mae caban gwerthiant y ffotograffwyr. Yna bydd pobol yn ymgasglu cyn cinio. Rydym yn rhoi allan 'contact sheets' y noson cynt. Mae'r archebu yn dechrau - pob llun yn costio 9000 lira (tua £4), ac am bob un a werthir dwi'n cael 500 lira, tua 20c. Cnau i'r hogyn.

Tra fydd Pietro yn mynd ymlaen gyda'r gwerthiant rhaid i mi dynnu lluniau gymnasteg, cadw'n heini yn y pwll nofio. Y

trefnwr ydi Salvo o Siracusa yn Sisili — Rudolph Valentino y pentref, gan ei fod wrth ei fodd gyda'r holl ferched mewn cylch yn wiglo o'i flaen. Cyn cinio mae pawb yn sefyll wrth ymyl y pwll nofio i ganu a dawnsio cân y pentref, 'la sigla' — 'Ryda ni mewn paradwys yma yn Valtur . . . neu rywbeth tebyg. Mwy o glician y camera.

Er fy mod yn colli cinio Sul a bacwn ac ŵy Mam rhaid i mi ddeud fy mod i'n bwyta fel brenin yma. Mae yma ddewis eang yn y buffet enfawr — creaduriaid o bob lliw a llun ar blât — octopus, swordfish, cregin, cacennau, pysgod, a'r cwbl gyda naws bwyd traddodiadol Calabri. Ar ôl cinio fel arfer dwi ishio mynd am nap fach, ond fi sy'n gyfrifol am y gwerthiant felly bydd Pietro yn mynd i brintio archebion a datblygu ffilmiau'r bore.

Yn y pnawn mae'r Mini Club yn trefnu 'la Sarponata'. Mae'r plant i gyd yn edrych ymlaen ato a'r cyffro a'r hapusrwydd yn amlwg ar eu hwynebau. Ar y lawnt mae blanced blastig wedi ei socian mewn sebon a dŵr. Unwaith mae'r sglefrian ar y bol yn dechrau mae'r camera yn clician ar bob un o'r 60-70 o blant. Mae'n olygfa a hanner!

Mae pêl-droed y dynion braidd yn ormod i mi. Yn rhyfeddol maent i gyd yn ddifrifol o gysidro eu bod ar eu gwyliau — eisiau dangos eu hunain o flaen y merched. Mae'r taclo yn galed — styds yn yr awyr 'run fath a Deiniolen v 'Sgubor Goch ers talwm!.

Cewch ddarllen
gweddill hanes Gai yn
yr Eidal yn y rhifyn
nesa . . . gan gynnwys
ei gyfarfyddiad ag un
o chwaraewyr
Inter-Milan

**MODURDY
PLAS
BACH**

CAEATHRO
Ffôn: C'fon 672072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug





EC IFA

Pa lyffant
biau'r
coesau?




Pa ddau fabi sy'n efeilliaid?

O'R NC



A welwch
chi'r 10
gwahaniaeth
rhwyng y
ddau lun?



Gorffennwch y wynebau del yma.

Dolbadarn v Cwmderi

Ddiwrnod Ras y Wyddfa yr oedd Cyfeillion Ysgol Dolbadarn, Llanberis, gyda chydweithrediad hael a pharod trefnwyr y Ras, wedi trefnu gêm bêl-droed rhwng tîm o rieni'r Ysgol a thîm Cwmderi o'r gyfres boblogaidd 'Pobl y Cwm'. Cynhaliwyd y gêm ar derfyn y Ras, ac felly roedd tyrfa fawr o amgylch y cae i wyllo'r ornest fawr.

Cyn dechrau'r gêm safodd y ddau dîm mewn llinellau syth yng nghanol y cae, â'r rhieni yn dechrau meddwl eu bod yn ôl yn yr ysgol yn y 'leins' yn aros am gyfarwyddyd yr athro. Ond sylweddolwyd bod hon yn gêm bwysig, a bod angen, yn nhraddodiad gorau'r *Cup Final*, cyflwyno aelodau'r ddau dîm i'r gwahoddedigion. Yn absenoldeb anorod y Prins o Wêls cyflwynwyd y chwaraewyr i Faer Arfon ac un o gynrychiolwyr y Grid Cenedlaethol oedd yn noddi Ras y Wyddfa. Tipyn o embaras i'r tîm lleol oedd bod tri o'r chwaraewyr heb gyrraedd ar y pryd! Ond erbyn amser dechrau daethai'r tri i'r fei yn ddiogel. Cafwyd panic arall pan sylweddolwyd nad oedd y dyfarnwr rhyng-wladol, Mr Michael Griffith, wedi cyrraedd. Os oedd ei wynt ef yn ei ddwrn pan gyrhaeddodd erbyn y gic gyntaf, roedd ei wynt yn ei chwiban trwy'r pnawn wrth iddo fynnu cosbi ei frawd Huw am gamsefyll yn gyson.

Braidd yn betrusgar oedd tîm y rhieni wrth sylweddoli bod ambell i wyneb diarth yn rhengoedd Cwmderi. Dechreuwyd amau bod Derec, Glan, Hywel a Sarjant James wedi dod a thîm Inter-Caerdydd efo nhw am bractis dechrau tymor. Er bod un neu ddau o'r rheini yn dal i chwarae pêl-droed yn rheolaidd yr oedd y mwyafrif wedi ymddeol ers blyneddau, ac ambell un yn cwyno bod hoelion studs ei 'sgidiau yn anafus! Doedd dim syndod felly mai Cwmderi sgoriodd gyntaf. Ond ychydig a wyddent bod hynny yn rhan o gynllun y rhieni i'w twyllo i fod yn or-hyderus. Cafwyd gêm gyffrous, ac er mawr syndod, o gofio eu hoedran, tîm y rhieni a orfu. Tair

gôl i ddwy oedd y sgôr terfynol. Sgoriwyd dwy gôl gyntaf Llanberis gan Gareth Jones a Kelvin Jones. Ond chwaraewr ar fenthg i rieni'r ysgol a sgoriodd y drydedd gôl dyngedfennol. Roedd Len Brookes o Lanrug wedi cael caniatâd arbennig FIFA ac UEFA i gynrychioli tîm yr ysgol gan fod ei wraig yn athrawes yno. Sgoriodd gôl ardderchog gan fynd heibio o leiaf bump aelod o dîm Cwmderi cyn taro'r bêl i gefn y rhwyd. yn anffodus, er bod gan Mrs Brookes gamera fideo yn ei llaw ar y pryd, ni lwyddodd i ffilmio'r gôl!

Wedi'r chwiban olaf



Tîm Cwmderi.

rhuthrodd y dyrfa ar y cae a bu raid i hogia Cwmderi lofnodi lluniau a llyfrau o bob math. Roedd rhai fisors ymhlith y dyrfa yn amlwg heb weld y rhaglen deledu. Ac roedd yn haws gan ambell aelod o dîm Llanberis dorri ei enw iddynt yn hytrach na chyfaddef nad oedd o yn un o sêr y byd teledu yng Nghymru!



Tîm rhieni'r ysgol.

DRAENOG



Dydi pawb ddim yn hoffi gwneud apwyntiad i weld y doctor. Ond mae'n siŵr bod yna fanteision i'r drefn hon. O leiaf dydych chi ddim yn gorfod disgwyl am oriau mewn ciw, ac mi gewch chi sylw ar amser cyfleus i chi. Byddai gwneud apwyntiad wedi osgoi

embaras mawr hefyd i ddyn o Ddeiniolen yn ddiweddar. Glywsoch chi'r stori? Roedd o wedi cael anaf i'w droed, ac wedi llwyddo i fynd draw i'r feddygfa yn Llanberis. Gan fod y lle yn llawn fe eisteddodd yn dawel yn y dderbynfa i ddisgwyl am sylw. Mae'n nhw'n deud wrtha i ei fod o wedi bod yno am amser go faith yn disgwyl yn amyneddgar i rywun ddod ato. Ac eto doedd o ddim yn gweld pam bod yr holl ferched yn cael gweld y doctor o'i flaen o. O'r diwedd sylweddolodd mai'r Clinig Ante Natal oedd yn cael ei gynnal yno y pnawn hwnnw!



'Faint sy gynnoch chi i fynd, cariad . . .?'

Deunaw mlynedd yn ôl . . .

Nôl ym mis Hydref 1976, roedd stori flaen yr *Eco* yn sôn am yr angen i wella ffyrdd y fro, yn enwedig o gofio bod gwelliannau mawr i'w gwneud i'r A5 a'r A55. Roedd angen ffyrdd newydd arnom er mwyn gallu manteisio yn llawn ar y budd economaidd a ddeuai o wella'r ddwy briffordd. Rhestrwyd cynlluniau arfaethedig, yn cynnwys ffordd osgoi Cwm-y-glo a ffordd heibio Deiniolen tua Marchlyn.

Ydach chi'n cofio'r rhaglen radio boblogaidd 'Hawl i Holi'? Roedd honno i gael ei recordio yn Llanrug.

Roedd Band Deiniolen wedi bod dros y môr; bu'n diddori'r teithwyr ar y llong y 'Duke of Lancaster', ar y daith o Gaergybi i'r Iwerddon.

Roedd Clwb Eryri yn dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed. Rol Williams, yr ysgrifennydd, oedd yn sgwennu hanes sefydlu'r Clwb ac yn rhoi syniad am y math o bynciau a drafodwyd yn y Clwb dros y blyneddau. 'Mae pethau wedi newid cryn dipyn ers y dechrau hwnnw. Pan feddylwyd am gael clwb llenyddol yn y fro daeth criw da o ddynion a merched ynghyd i ystyried y mater, a phenderfynwyd mai clwb trafod i DDYNION YN UNIG oedd Clwb Eryri i fod. Teg gofyn a fyddai dynion goleuedig 1994 yn ystyried dilyn yr un llwyr.

Roedd Bysiau Arfon yn hysbysebu trip i Lundain, i gynnwys pedair noson gwely a brecwast — am £24.

Ar y dudalen chwaraeon, roedd adroddiadau am bum gêm yn ymwneud â thimau Llanberis a Llanrug. Doedd o ddim yn fis da i dimau'r fro. Un yn unig o'r pum gêm a enillwyd, a honno gan Llanrug . . . yn erbyn Llanberis!

Cwynedd Hotel & Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

MAE'R SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR 354646

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Camera yng ngofal Glyn Gruffydd, Cynfi, Deiniolen. Ffôn: 870394

Pwyllgor y Ganolfan: Mewn cyfarfod o bwyllgor y Ganolfan a gynhaliwyd ar nos Fercher, Medi 14eg, o dan gadeiryddiaeth Caren Jones a chafwyd cryn drafodaeth ar sut y gellir denu mwy o bobl, ac yn arbennig felly pobl ifanc, sydd wedi ymsefydlu yn ddiweddar yn y pentref i weithredu ar y pwyllgor. O gofio pa mor allweddol yw y Ganolfan i fywyd cymdeithasol a diwylliannol y pentref teimlwyd ei bod yn bwysig cael criw ifanc, brwdfrydig, i weithredu ar y pwyllgor er mwyn llywio y gwaith yn hyderus ymlae gan adeiladu ar ymdrechion sydd wedi eu gwneud eisoes i sicrhau bod gennym Ganolfan i ymfalchïo ynddi. Felly beth amdani? Cysylltwch â Hannah Roberts, yr ysgrifenyddes, gyda'ch enwau. Byddai yn falch o glywed gennych.

Yn yr un cyfarfod cafwyd munud o ddistawrwydd i gofio am y diweddar Mr Rennell Williams a chofnodwyd ei gefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf i waith y Ganolfan. Yn yr un cyfarfod hefyd fe benderfynwyd cynnal Noson Gymdeithasol yn y Ganolfan, rywbryd yn ystod mis Tachwedd, er ceisio ennyn mwy o ddiddordeb pobl y pentref yng ngwaith y pwyllgor.

Eglwys y Santes Fair: Cynhelir y gwasanaeth olaf ar yr Ŵyl Ddiolchgarwch — dydd Sul, Hydref 16. Bydd gwasanaeth am 3.30 o'r gloch ac fe ddisgwylir yr Hybarch Elwyn Roberts, Archddiacon; Canon R. G. Williams a'r Parchg Tegid Roberts i fod yn bresennol. Ar un wedd bydd hwn yn ddigwyddiad trist iawn ond eto fe ddymunir gweld y gwasanaeth olaf hwn yn fynegiant o ddiolchgarwch gerbron Duw am wasanaeth a ffyddlondeb pawb i'r Achos dros yr holl flynyddoedd yma yn Ninorwig.

Gwellhad buan i Derek Williams, Bron Eilian, sydd heb fod yn dda ei iechyd; i Ann Dearn, Fron Deg ac Emrys Owen, Bron Myfyr, y ddau wedi derbyn llawdriniaethau yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd. Yr un yw ein dymuniadau i bawb arall sydd heb fod yn mwynhau iechyd da y dyddiau hyn.


Addysg y Gweithwyr: Erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn dim ond un dosbarth fydd ar ôl, allan o'r pump, sydd wedi eu cynnal dros yr wythnosau diwethaf. Maent wedi bod yn ddosbarthiadau hynod ddiddorol ac addysgol ac mae'r diolch am hynny i Ms Cathrin Ll. Williams sydd yn amlwg yn arbenig-wraig ar hanes Y Wladfa. Diolch iddi am gael derbyn ffrwyth ei gwaith ymchwil; ac i Miss Elen Wyn Jones, Ty'n Fawngog am drefnu'r cyfan.

Croeso i Geraint ac Ira Morris i'w cartref newydd yn Tŷ Capel, Dinorwig. Mae'n braf gallu croesawu Cymry ifanc i'n plith.

Pob Hwyl i Eifion Griffiths a'i fab, Dylan, Y Foel, sydd ar fin symud i'w cartref newydd ym Mhenisarwaun. Bydd colled fawr ar eu hôl ac fe ddymunwn pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol. Cofiwch alw nôl bob hyn a hyn.

Llwyddiant: Rydym yn falch o ddeall fod dau o fechgyn ifanc y pentref wedi eu derbyn i golegau addysg pellach. Pob llwyddiant i Aaron Thomas, 9 Bro Elidir, yng Ngholeg Gwynedd, Bangor; ac i Dafydd Wyn Jones, 5 Bro Elidir, yng Ngholeg Pencraig, Llangefni. Da iawn hogia.

Plygu'r Eco: Diolch o galon i'r criw da ohonoch am droi i fyny ar nos lau, Medi'r 8fed, i blygu rhifyn mis Medi o'r Eco. Canlyniad hyn oedd i'r gwaith gael ei wneud o fewn dwyawr. Cydweithio yw yr allwedd i lwyddiant bob tro.



Cân newydd Genod Tŷ'r Ystol . . .
'Pwy 'da chi'n feddwl yda chi dad, Jack Duckworth?'

Y DDrama UN ACT YN DINORWIG

Glywsoch chi hanes y ddrama ar do Tŷ'r Ysgol Dinorwig
Ble bu Ifan Bryn bron a mynd yn lloerig;
Syrthiodd yr ystol a'i adael yn unig a blin
I fyny ar y grib yn 'ista ar 'i dŷn.

Yno ei hunan mewn gwres mwya' llethol
A'r sefyllfa bron yn anioddefol —
A'r teulu wedi mynd i ffwrdd am sbri
Ac Ifan ar y to yno yn toddi.

Er iddo weiddi'n groch am ymwared
Nid oedd neb yn unman yn 'i glywed;
Fe ddaeth hofrennydd achub heibio,
A do, mi ddaru fo wefio!

Ond nid chwifiad llaw y Samaritan
Oedd hon, ond cyfarchiad ar ei hedfan;
Ateb galwad roedd hi i Glogwyn Du'r Arddu
Nid i godi dyn a glwydai ar ben ei dŷ.

Yn ei siom deisyfodd, 'Adenydd colomen pe cawn'
Neu yma y bydda' i drwy'r pnawn;
Wedi iddo gael ei rostio ddigon
Fe ddaeth ymwared — cyrhaeddodd John Eifion.

Rwy'n synnu atat ti Ifan Bryn
Yn gwneud sôn amdanat fel hyn;
Be petai ti'n syrthio a thorri dy goesa;
Neu cael dôs o ddaioria;
Yn mentro mor uchel a pheryglu dy hun —
Rhaff ddylai fod gennyt, a thro am dy glun.

H.J.



GWÊL Y
LLYN

Lake View
Hotel
LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partïon

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon (Waunfawr 799)

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Tegwen a Dilwyn Morris, Bryn Glas, ar enedigaeth bachgen bach, Aled Einion Morris, ar y deuddegfed o Orffennaf; ac i Alwyn a Vernonica

Morris, Merddyn, ar fod yn daid a nain. Bedyddiwyd Aled Einion ar y deunawfed o Fedi ym Mryn Glas gan y Parchedig W. R. Williams.

Hoffai'r teulu ddiolch i'w ffrindiau a pherthnasau am y llu o gardiau ac anrhegion.

Priodas: Llongyfarchiadau i Audra Jones a Philip Wyn Roberts o Marfista, Ceunant, ar eu priodas yn ystod yr haf.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI"
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Gwellhad: Gobeithiwn y bydd Alan Pritchard, Arwel; a Meirion Pritchard, Tŷ Isaf, yn well wedi iddynt dreulio cyfnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau li Rhona Lampard, Tŷ Gwyn, ar fod yn gydradd ail mewn cystadleuaeth rhwng tair merch arall yn Llundain i ddarganfod 'Merch y Nawdegau'. Meddyg o'r Alban aeth a'r bencapwriaeth ond cafod Rhona anrhegion i gofio am yr achlysur.



Capel Rehoboth: Mae'r Ysgol Sul wedi ailddechrau ac estynnwn groeso i holl blant y Nant atom. Cynhelir yr Ysgol Sul am 2 o'r gloch, yr un pryd â'r oedfa yn y Capel.

. . . Hawdd yw dwedyd 'Dacw'r Wyddfa' . . .

gan Olwen Davies, Bangor

Does dim llawer o amser ers pan glywsom, gyda syndod a braw, bod yr Wyddfa ar werth. Roeddym wedi cymryd yn ganiataol rywsut, heb gofio mai Stâd y Faenol oedd piau'r tir bron i gyd, ei fod yn perthyn i bawb. yn wir, fe gredem ni, blant yr ardal, mai NI oedd piau'r Wyddfa, a bod pobol eraill yn dod yn eu tro i weld ei fawredd yn yr haf.

Cefais fy magu wrth droed yr Wyddfa, heb fod ymhell o'r lliadiart a fyddid yn cael ei agor yn gwrtais gennym. Wedi ei agor gwnaem ddwy rês bob ochr a chanem 'Hen Wlad Fy Nhadau' fel y dynesai'r 'byddigions'. Hwytiau wedyn yn rhoi arian i ni, weithai ddeuswllt, dro arall geiniog yr un. Ond cyn i'r prysurdeb ariannol hyn gychwyn, byddem wedi hawlio'r fraint o fynd i fyny'r llwybr, bob un â'i becyn bwyd a'i botel ddiod.

Ac fe aem felly o dow i dow, heibio'r bwthyn uwchlaw'r coed, lle gwerthid diod dail o ddant y llew a llysiau eraill gan hen wraig mewn paos a betgwn. Ymlaen â ni heibio Capel Hebron, lle byddai ffermwyr a bugeiliaid yr ucheldir yn cynnull bob Sul ymhob tywydd.

Yna tua hanner ffordd byddai math o fwyty lle gellid prynu lluniaeth ysgafn cyn ymlafnio i wynebu eangderau Cwm-daethwch a Chwm Du'r Arddu. Tua chwech oed oeddwn pan euthum i fyny gyntaf yng nghwmni plant hyn y stryd.

I ni, pobol fawr, neu 'fyddigions' oedd yr ymwelwyr. Arhosai rhai yn y Ring — gwesty Victoria — a deuent heibio'n stryd ni ar ôl cinio nos, y merched yn eu gynau lleision a'r gwŷr yn eu siwtiau duon ac arogl mwg sigâr yn hofran yn yr awel wrth iddynt basio ar eu ffordd i weld y Ceunant Mawr.

Yn anterth yr haf, deuai'r heidiau ar y trê'n i orsaf Llanberis. Yn y dauddegau nid oedd ceir modur wedi dod yn eiddo i'r rhelyw, felly byddai'r

Lôn Bost yn ddigon gwag i'r bobl gerdded yn ddiogel a hamddenol.

Mae'n syndod cofio y byddai pobl yn cael eu denu at yr Wyddfa cyn bod y rheilffordd wedi agor o Gaer i Gaergybi. Cofnodir am ddau ŵr yn cerdded o'r Rhyl drwy Abergele a Chonwy i Fangor, yna'n cael cwch i lawr Afon Menai, cerdded i Gaernarfon, ymlaen i Lanberis ac i gopa'r Wyddfa.

Yr adeg hynny gellid llogi arweinydd profiadol, ac yn aml ferlyn neu ful. Lawer gwaith y clywais Anti — y wraig a'n magodd ni blant amddifad — yn sôn am ei thaid, William Roberts, a oedd yn un o'r geidiau (*guides*) hyn. Llogid ef gan Westy Victoria, a byddai'n rhedeg math o westy — cwt pren — lle gellid aros noson a lle ceid pryd o fwyd a diod.

Roedd y tywydd, wrth gwrs, mor newidiol ag y mae heddiw. Weithiau, niwl trwchus, dro arall dymchwelai'r glaw yn gyson ac oer. Doedd dim dillad plastig fel heddiw, na lle i sychu'r dillad gwlyb. Dibynnid ar ddiodydd cryf neu boeth, brandi neu porter neu goffi, a'r geidiau fyddai'n paratoi hynny.

Nid oedd Trê'n Bach yr Wyddfa yn bod yn nechrau'r ganrif ddiwethaf, a gellid yn hawdd fynd ar goll neu syrthio dros y clogwyni os mentrid heb y geidiau, er nad oedd y rhain i gyd yn foddhaol.

Ni agorwyd Bwlch Llanberis tan 1831, a chyn hynny roedd Beddgelert yn fwy prysur fel

canolfan i deithwyr i gychwyn eu taith i fyny'r Wyddfa. Dim ond y rhai mwyaf dewr a hyderus a ymgwymerent â'r daith helbulus.

Roedd y llwybr o Ben-y-gwryd hefyd yn anodd; '*Terrible precipices*,' meddai Thomas Pennant. A chofier hefyd na fyddai gan y cerddwyr ddillad arbennig. Y dynion yn cario ffyn, a'r merched eu ambarél; yr unig arwydd o'r caledwaith o'u blaenau, gan y byddai yn rhaid gwisgo'n chwaethus fel y gweddai i'r bonedd.

Yn y tridegau y gwelid y tyrru twristaidd, ac wrth gwrs roedd y trê'n bach yn cario llawer mwy o'r rhai a ddewisai dalu.

Fe euthum i fyny pan oeddwn yn chwech oed. Nid y fi oedd y gyntaf i fynd mor ifanc. Yn 1850, '*Jane Evans ascended — only six years old*,' yn ôl cofnod.

Pan oeddwn yn dair ar ddeg oed, a'r arian yn brin, cefais fynd i ben yr Wyddfa i gadw'r siop fechan a gedwid mewn cwt pren bychan. Roedd hynny cyn adeiladu'r erchyllbeth concrit — yr 'hotel' a alwyd gan y Tywysog Siarl fel '*the highest slum in the country*.'

Fe awn i fyny yn fore, ac i lawr ar y trê'n olaf tua saith yn yr hwyr. Gwerthwn gardiau, pethau da, a stampiau, ac fe ellid rhoi '*Summit of Snowdon*' ar y stamp yr adeg hynny trwy ganiatâd y Llythyrdy.

Unwaith fe aeth y trê'n olaf i lawr hebof, a bu'n rhaid i mi gerdded yn ôl gyda'r arian a'r cardiau post. Wrth lwc roedd yn ddiwrnod braf a chefais gwmni llawer eraill oedd yn mwynhau'r distawrwydd a'r llonyddwch — dim ond sŵn pell y trê'n yn ffrwtian ar y cledrau, a'r chwiban wrth iddi gyrraedd gorsaf '*Halfway*' islaw.

Ond un tro pan aeth fy chwaer a minnau, yn enethod ysgol, i fyny ar brynawn braf, ac wedi aros yn hir tan yr hwyr, daeth y cymylau duon i lawr. Torrodd taranau a gwibiodd y mell, a gorchuddiwyd pob harddwch gan 'gymylog gastell y didostur law'. Aeth y llwybr yn afon dan ein traed, ac ofnem fynd ar goll.

Dechreuais redeg yn wyllt o

flaen y mell, a'm chwaer — nad oedd ond blwyddyn yn hyn na mi — yn ceisio fy nhawelu a'm cysuro. Cofiaf mor falch oeddym o weld coed y Derlwyn a'r bwthyn bach.

Yn y dyddiau hynny nid oedd gwasanaethau achub. Os ai rhywun ar goll, neu os anafwyd rhywun, byddai'r plismon yn galw am chwarelwyr — gwŷr cedyrn y graig — a bugeiliaid, a llanciau hyderus, i fynd allan i chwilio, weithiau ar dywydd garw, gefn nos.

Mae'n rhyfedd y dynfa sydd i fentro i ryw begwn uwchben y ddaear. Yn 1947, cyn dyfodiad y trê'n i ogledd Cymru, fe aeth un gŵr o Goleg Oriel, Rhydychen, i fyny naw gwaith!

Erbyn heddiw, mae ras redeg — y Marathon — yn denu dynion a merched i 'goncro'r Wyddfa'. Mae moduron wedi cael eu profi ar y llwybr hefyd, ac fe wyddom fod hofrennydd wedi glanio ar y fan lle bu'r carn cerrig yn dynodi'r copa. Mae hen gred mai beddfaen rhyw bendefig brodorol oedd o dan y twrr cerrig dros chwe mil o flynyddoedd yn ôl.

Hawdd credu bod rhai o'r milwyr Rhufeinig a drigai yn y gaer, yn Segontium, wedi mynd ar ymdaith tuag yno, a'r brodorion yn eu gwyllo o'u hafotai ar y llethrau.

Ie . . . 'aros o hyd y mae'r mynyddau mawr'.



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN
6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Clwb 200 y Neuadd: Enillwyr gwobrau mis Awst oedd — £20: Sue Williams, Gwylanod (31); £10: Mrs Jean Vize, Cefn Rhos (90); £5 yr un: Mrs Margaret Rees, 6 Y Rhos (7); Mr Geraint Elis, Cilgeran (97); Mr Gwynfor Morris, Treflys (196); Mrs Beryl Jones, 25 Bro Rhos (145); Miss Iona Williams, Alun House (152); Mrs Jackie Jones, Tŷ Catrin (44); Mrs Elizabeth Jones, 12 Stad Eryri (1); Mr Goronwy Owen, 18 Cremllyn (35).

Diolch: Er mai ychydig iawn a gefnogodd y Ffair a gynhaliwyd yn y Neuadd ar nos Iau, 8fed Med, fe wnaed elw o £138.40 i drigolion Cartref St. Teilo. Hoffai Mrs Bilby a'r staff ddiolch i'r rhai fu'n cyfrannu. Enillwyr y raffl oedd: Mandy Morgan, d/o St. Teilo; Albert Williams, Y Felinheli; Mrs Whalley, Bethel; Mrs Irene Granton, Bethel; Lyn Jones, d/o St. Teilo.

Eisteddfod y Pentref: Cynhelir yr eisteddfod eleni ar nos Wener, Tachwedd 4ydd. Wedi cyfnod pan na chynhaliwyd yr eisteddfod, oherwydd y gwaith ar y Neuadd, edrychir ymlaen at ailsefydlu gweithgaredd a fu mor llwyddiannus yn y gorffennol.

Er mai'r eisteddfod ei hun, ar y 4ydd, fydd y pinacel fe gynhelir nifer o weithgareddau eraill fel a ganlyn — **Nos Fercher, Tachwedd 2:** Derbynnir y gwaith llaw a chynhyrchion y cystadlaethau arlunio, ac yn y blaen, yn y Neuadd rhwng 4.30 a 6 o'r gloch.

Nos Iau, Tachwedd 3: Cynhelir y cystadlaethau Dawnsio Disgo a Dawnsio Gwerin yn y Neuadd am 6.30 o'r gloch. Pris mynediad i'r cyfarfod hwn fydd 50c i gynnwys paned a bisgedi — bydd creision ac oren ar werth hefyd. 20c fydd y tâl mynediad i blant.

Nos Wener, Tachwedd 4: Cynhelir yr eisteddfod yn y Neuadd gyda'r cystadlu i gychwyn am 6 o'r gloch. Pris mynediad fydd £1 i oedolion a 20c i blant.

Nodir isod ychydig o ychwaneg-iadau i'r testunau yn yr adran gerdd: **Yr Adran Feithrin** — un pennill yn unig o'r gân 'Un, dau, tri'.

Blwyddyn 0 — un pennill yn unig o'r gân 'Naw, naw, naw'.

Ysgol Uwchradd — blwyddyn 7, 8 a 9: 'Nos a Gwawr'; blwyddyn 10-13: 'Tro'r olwyn yn ôl.'

Pwyllgor yr Eisteddfod: Cynhelir cyfarfod o bwyllgor yr Eisteddfod am 7.30, nos Fercher, 26 Hydref yn y Neuadd.

Newyddion o'r Ysgol: Erbyn hyn mae'r plant newydd wedi setlo yn yr ysgol. Croeso hefyd i Mrs Janet George o Gaernarfon sydd yn athrawes blwyddyn 3 a 4 yn lle Mr Watkins. Cafodd côr yr ysgol lwyddiant eto'n perfformio 'O Gaethiwed i Ryddid' yn Theatr Gwynedd. Maen siŵr fod y profiad arbennig a gafodd y plant o berfformio i gynulleidfaoedd Theatr Seilo a Theatr Gwynedd yn fythgofiadwy iddynt.

Gwasanaethau'r mis yn Y Cysegr: 9: Parchg T. R. Jones, Morfa Nefyn 16: Gwasanaethau Diolchgarwch 23: Y Gweinidog 30: Parchg Islwyn Lake

Yr Urdd: Yn nghyfarfod blyneddol y gangen dewiswyd y swyddogion fel a ganlyn — Cadeirydd: Mr Geraint Elis; Ysgrifennydd: Mrs Eirlys Williams; Is-ysgrifennydd: Mrs Wendy Ostler; Ysgrifennydd Aelodaeth: Mrs Siân Robinson; Arweinydd: Mrs Glenys Griffiths; Trefnwyr Chwaraeon: Mr Siôn Williams a Mrs Mair Williams. Penderfynwyd peidio trefnu noson tân gwyllt eleni ond bydd gweithgareddau amrywiol a diddorol yn ystod y tymor.

Bydd y tymor yn cychwyn gyda noson ymaelodi, ar nos Iau, Hydref 20fed. Bydd y swyddogion yn y Neuadd rhwng 6 a 7 o'r gloch i dderbyn tâl aelodaeth — sydd yn £3 eto eleni. Gan y cynhelir yr eisteddfod ar Tachwedd 3ydd a'r 4ydd ni fydd cyfarfod o'r adran ar y



Aelodau Tîm A Bethel dan 11 oed.



Mrs Elizabeth Williams yn dal ei gor-ŵyr, Rhys gydag Eira ei fam, a Menai ei nain.

3ydd. Bydd y gweithgareddau yn dechrau ar y 10fed o Dachwedd ar yr amseroedd arferol — rhwng 5.15 a 6 i blant blwyddyn 2, 3 a 4; a rhwng 6 a 7 i'r plant hŷn.

Uwch Adran: Mae nifer o ddisgyblion ysgol uwchradd wedi mynegi awydd i sefydlu Uwch Adran yr Urdd. Penderfynwyd gwahodd unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn aelod o'r adran, fyddai yn cyfarfod unwaith y mis, ddod i'r Neuadd erbyn 7 o'r gloch ar nos Iau, Hydref 6ed, i drafod y mater.

Merched y Wawr: Agorwyd tymor newydd y gangen yn yr Ysgol ar

nos Fercher, Medi 14. Croesawodd Mrs Glenys Griffiths yr aelodau gan estyn croeso cynnes iawn i'r aelodau newydd. I agor y tymr cafwyd noson hwyliog a chartrefol yng nghwmni Mr Maldwyn Parri a Parti Mignedd, o ardal Dyffryn Nantlle. Diolchwyd i'r Parti gan Mrs Mair Read. Paratowyd swper blasus i'r parti ac aelodau'r gangen gan aelodau'r pwyllgor.

Dymunwyd yn dda i blant yr aelodau ar ddechrau cyfnod newydd yn eu hanes, boed yn yr ysgol, coleg neu waith.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Siop Crefftiau Cae Coch, Llanberis, yng nghwmni Mrs Pat Jones. Trefnir cludiant yno felly gofynnir i'r aelodau ymgynull wrth yr Ysgol am 7 o'r gloch.

Pedair Cenhedlaeth: Fore Sul, Medi 25ain, yng Nghapel y Cysegr, bedyddiwyd Richard, mab Mr a Mrs Caulcutt, Caernarfon. Dyma fedydd y bedwaredd genhedlaeth o'r teulu yn Y Cysegr gyda Ceri, y fam, y nain — Elizabeth Evans, Blaen Parc — a'r hen nain wedi eu bedyddio yn y Capel o'i flaen.

Un, dau, tri, pedwar . . . Ychydig fisoedd yn ôl roeddem yn llongyfarch Mrs Annie Elisabeth Williams, Tŷ Newydd, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed. Yn ddiweddar daeth dathliad arall i'w rhan wedi genedigaeth Rhys Wyn Davies yng Nghaernarfon. Mae Rhys, mab Eira — sy'n ferch i Menai — felly yn symud Mrs Williams un cam arall i fyny'r ysgol o nain i 'hen nain'. Llongyfarchiadau i'r pedair cenhedlaeth. Gyda llaw roedd Yncl Gwilym Hefin wedi gwirioni hefyd. Cymaint wir nes bod ei wallt wedi sefyll i fyny'n syth ar ei ben — ffasiynol iawn Cwll!!



Wrth eu bodd yn yr ysgol — plant newydd Bethel, Medi 1994.

YR AFON WERDD GAN Y Gwalch (1)

Yn ystod gwyliau'r haf f'arferiad, yng nghwmni amryw o bobl ieuainc eraill, oedd teithio o Lydaw i lawr i winllanoedd Bordeaux lle'r oeddwn yn gallu treulio pythefnos broffidiol yn hel y grawnwin. Yn fuan wei'r Rhyfel roedd y math yma o wyliau wedi dod yn boblogaidd iawn gyda efrydwyr Ffrainc — mor boblogaidd nes bod rhai o gwmnïau gwin y de wedi paratoi gwersylloedd ar eu cyfer.

Yn un o'r gwersylloedd hynny y cyfarfyddais â Gaston Fremant. Doedd ein astudiaethau ond prin wedi aildechrau ar ôl diwedd y Rhyfel. Efrydydd gwyddoniaeth o Baris oedd Fremant; llanc tal, pryd golau, athletaidd. Eto nid oedd yn ymddangos yn awyddus i gymryd rhan yn ein chwaraeon fin nos, ac ni welid ef byth mewn criw.

Mae'n debyg mai oherwydd ei ymddygiad gwrth-gymdeithasol y rhoddais innau sylw mwy na'r cyffredin iddo. Roedd o yn cysgu yn ein cwt ni, ac un noson, ddeuddydd neu dri cyn ymadael, sylwais mai ef oedd yr unig un a oedd heb ddychwelyd o'i bererindodau. Noson leuad lawn oedd hi a'r awyr yn hwyr, ond ar y funud ni chysylltais bwysigrwydd â'i absenoldeb. Cysgais, ac yna deffro wedyn tua dau o'r gloch y bore i ganfod y lloer yn pelydru ar ei wely gwag.

Clywais ryw gwynfan oddi allan. Rhoddais fy nghôt tros fy ysgwyddau a mynd trwy'r drws i olau'r lleuad, a gwelais Fremant ar lawr yn y llwch yn feddw gaib. Llwyddais i'w godi a'i gynnal cyn belled â'r gegin a'i roi i orffwys ar fainc. Gwnês goffi, ac ymhen ychydig dadebrodd ddigon i'w yfed yn araf.

'Merci,' meddai. 'Ble'r ydwyf?'
'Rwyf ti'n ôl yn y gwersyll,' meddwn. 'Mi fyddi yn iawn.'

'Byddaf,' meddai yntau. 'Byddaf, ond doedd hi ddim yn debyg i Nicole, dim yn debyg . . .' Aeth ei lais yn llesg a gollyngodd ei hun i lawr wedyn ar y fainc. Arhosodd felly am ysbaidd, yna neidiodd ar ei draed, a chyn i mi allu ei rwystro roedd wedi gafael yn fy ysgwyddau fel feis. Roedd ei lygaid yn fawr a chwyddedig a safai'r chwys yn ddiferion ar ei ael. Roeddwn braidd a'i arswyd, mae'n rhaid cyfaddef, a thra'r oedd yn fy nal yn fy nghadair dywedodd yn floesg.

'Er mwyn Duw paid a dweud wrth neb dy fod wedi fy nghanfod fel hyn heno . . .' Fflachiodd ei lygaid am eiliad yna llechwyd ef eilwaith gan dard y gwin a syrthiodd yn ei ôl ar y fainc. Aeth i gysgu yn drwm a chyrchais flanced i roi drosto.

Ar ôl y profiad roeddwn yn gyndyn o ddychwelyd i'm gwely. Penderfynais gynnu'r tân ac aros i warchod y cysgwr. Hunodd yntau am gryn ddwyawr, ond cyn y wawr deffrôdd yn araf ac edrych o'i gwmpas. Roedd yn amlwg ar ei edrychiad fod y dwymyn feddw wedi ei adael.

'Wyt ti'n well?' gofynnais.
'Ydw, o lawer. Diolch am edrych ar fy ôl.'

'Efallai y cei dithau gyfle i wneud yr un peth i minnau cyn ymadael!' Gwenodd.

'Efallai.' Fel pe bai wedi cofio rhyw fanylder yn sydyn, gofynnodd, 'Ddwedais i rywbeth tra'r oeddwn yn wael?'

'Dim byd arbennig, ond roeddet ti'n awyddus iawn i mi beidio â dweud dy hanes wrth neb.'

'Gallaf gredu. Fy rhieni wyddost ti. Unig blentyn ydwyf, a buasai'r wybodaeth o fawr loes iddynt.'

Sicrhais ef na fuasai neb doethach o fy achos i.

'Rwy'n falch,' meddai. 'Ond beth arall ddwedais i? Wnes i yngan ryw enw?'

'Mi wnest. Rhyw ferch efallai — Nicole?'

'Ie, ie, Nicole,' ac fel pe buasai wedi sylweddoli y gallai ymddiried ynof, ychwanegodd, 'Fuaset ti'n hoffi clywed am Nicole?'

Roedd yn amlwg ei fod yn cael ei lethu gan rhyw ofid serch; ei fusnes ef oedd hynny, ond cyn i mi gael cyfle i'w ateb, gofynnodd wedyn,

'Fuost ti mewn cariad rywdro?'

Cwestiwn anodd.

'Amryw o weithiau,' meddwn, 'rwy'n meddwl.'

'Rwyf i mewn cariad a rhith,' meddai, 'neu dduwies — un o'r ddau.'

Dechreuodd siarad yn gyflym, a chyn i mi gael cyfle i ddweud gair fy hun, roedd yn traddodi'r hanesyn rhyfedd yma: hanesyn sydd wedi achosi oriau o bendroni i mi, ac sydd hyd y dydd heddiw wedi fy llenwi ag ansicrwydd a dirgelwch na ellir mo'i ddatrys.

'Fel y crybwyllais,' meddai, 'unig blentyn ydwyf ac mae fy nghartref gerllaw'r Tuilleries ym Mharis. Llanc pymtheg oed oeddwn pan welais Nicole gyntaf. Syrthiais mewn carian anobeithiol â hi o'r cychwyn.

Galwa di ef beth â fynni, ond mae'r cariad wedi parhau yn ddidor drwy gydol yr holl flynyddoedd, ac wedi cryfhau hyd yn oes, er na welais hi ond am ychydig oriau un prynhawn bedair blynedd cyn dechrau'r Rhyfel.

'Yr haf hwnnw roedd fy nghyfaill, Georges, wedi mynd i Loegr ac roeddwn ar fy mhen fy hun yn y ddinas fawr. Un prynhawn, o ddiffyg dim gwell i'w wneud, euthum ar gerbyd i Montmartre. Yno am ychydig gwylais y dorf a'r arlunwyr gyda'u hiselau yn yr haul. O'r diwedd, wedi diflasu ar hynny, crwydrais yn ddiamcan ar hyd y strydoedd culion sydd yn rhwydwaith yn y rhan honno o'r ddinas. Ar droad un o'r strydoedd hyn fe sylwais ar fynedfa gyfyng yn arwain i dywyllwch a chefais fy meddiannu gan rhyw ddeisyfiad cryf i fynd i mewn iddi gan ddilyn ei llwybr dirgel. Roeddwn mewn tywyllwch dudew ond nid oedd amaf unrhyw ofn. Holl amcan fy modolaeth bellach oedd canfod beth oedd tu draw i'r tywyllwch hwnnw.

'Ar ôl ymbalfalu am amser sylwais fod y tawch yn graddol godi ac, o'r diwedd, deuthum allan i olau dydd yr ochr draw, a chefais fy syfrdanu wrth ganfod fod y fynedfa wedi fy arwain at lan afon lydan, dawel a lifai heibio i dai uchel gan ddiflannu ar y dde i ganol dolydd gwyrdd. Roedd pensaernïaeth y tai yn odidog. Roedd yn ymddangos fod eu muriau o farmor, ac fe syllais ar eu prydferthwch am amser maith. Yn sydyn sylwais ar gwch bychan. Doedd neb ar ei gyfyl nac arwydd o enaid yn unman.

'Erbyn hyn yr oeddwn yn

chwilfrydig ynglŷn â darganfod rhagor am daith yr afon nes peri i mi benderfynu benthyca'r cwch heb ganiatâd ei berchennog. Sylwais nad oedd yna rwyfau iddo, ac er mwyn mynd iddo bu'n rhaid i mi roi naid o'r lan. Synnais pan gychwynnodd y cwch ar ei union gan ganlyn y llif, er nad oedd rhaff nac angor i'w rwystro wneud hynny ynghynt.

'Ni feddyliais 'chwaneg am y peth gan mor hyfryd oedd symud yn dawel yn yr haul fel hyn i lawr yr afon. Gadewais i'm dwylo lusgo yn y dŵr ac yna sylwais ar wely'r afon. Roedd wedi ei gorchuddio â rhyw dyfiant llaes, gwyrdd, ac yr oedd hwnnw yn siglo yn donnog ac araf i symudiad y llif — fel nadroedd dan swyn y pibydd.

'Ar ôl dolennu felly am amser drwy ganol meysydd fe ddaeth yr afon â mi at fur cadarn, uchel. Roedd y dŵr yn lifo ymlaen drwy fwa yn y mur. Cefais fy ngludo i ganol tir lledrith. Roeddwn yn ymwybodol o goed a llwyni blodau a lliwiau o bob math ar y dde a'r aswy. Bob hyn a hyn deuai i'm golwg ffynhonnau yn chwythu eu dyfroedd grisial i'r awyr las. Roedd y cawodydd dŵr yn dal lliwiau'r blodau yn eu bwâu wrth ddisgyn. Yna am y tro cyntaf clywais leisiau.

'Lleisiau ieuainc, llon, llawn hapusrwydd oeddynt, ac ar drofa yn yr afon gwelais eu perchnogion — dau o bobl ieuainc — mab a merch tua'r un oed â mi, yn eistedd wrth ffynnon fawr a'u traed yn crogi yn y dŵr. Pan welsant y cwch, tawelodd y lleisiau a neidiodd y ddau i lawr, a rhedasant at lan yr afon.'

(I'w barhau)

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**GERAINT
OWEN**
Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau
**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**
Ffôn: Waunfawr
650552

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

**GORSAF BETROL
BERAN**
DEINIOLLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Camera yng ngofal Glyn Gruffydd, Cynfi. Ffôn: 870394



Plant bach newydd Ysgol Gwaun Gynfi, Medi 1994.

Enillwyr diweddar Clwb 100 Plaid Cymru: Mehefin — £10: Miss Angharad Williams, 29 Stryd Newydd; £5: Mr Owen Thomas, Mona House. **Gorffennaf** — £10: Mr Eilir Jones, 2 Tai Gwyrfa; £5: Mrs Heulwen Morris, Cefn Coch. **Awst** — £10: Mrs Jane Thorman Jones, 14 Tai Caradog; £5: Mrs Vera Parry, Bro Dawel.

Clwb Elidir: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor ar Medi 13, o dan lywyddiaeth Mrs Megan P. Morris. Yr oedd yn ddrwg iawn gennym glywed na fydd Mrs Ellen Williams a Mrs Hannah J. Thomas yn gallu ymuno â ni o hyn ymlaen. Y mae'r ddwy wedi bod yn aelodau ffyddlon iawn ar hyd y blynyddoedd a dymunwn y gorau iddynt i'r dyfodol.

Cydymdeimlwyd â mrs Jane C. Hughes yn ei phroffedigaeth o golli ei phriod.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Jennie Williams.

Cafwyd rhodd eleni eto yn ôl ei harfer gan Mrs Emyr Pritchard a mawr yw ein diolch iddi.

Gwesteion y te oedd Mrs Jennie Williams, Mrs J. Eirlys Williams a Mrs Jennie Cashman. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Jennie Williams ac fe'i henillwyd gan Mrs Sally Lewis.

Merched y Wawr: Nos Wener, Medi'r 9fed, aeth 17 o aelodau'r gangen i Neuadd John Phillips, Bangor, lle roedd noson arbennig wedi ei threfnu gan Ranbarth Arfon o'r Mudiad i ddathlu dyrchafiad Mrs Rhianwen Huws Roberts, o gangen Penrhosgarnedd, yn Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr. Yr oedd y Cyn-lywydd, Mrs Nan Lewis, yn bresennol ynghyd â'r Cyn-drefnydd Cenedlaethol, Mererid James. Cafwyd noson ardderchog gyda swper ac adloniant gan Carys Armstrong, Lleisiau Bro Ogwen, ac aelodau o gangen Penrhosgarnedd. **Chwarae dros Gymru:** Llongyfarchiadau i Gavin Allen ar gael ei ddewis i chwarae i dîm dan 21 oed Cymru. Dipyn o faint oedd cael ei ddewis ar gyfer y gêm yn Awstria, ac er na sgoriodd yn y gêm 1-1, cafodd dros hanner awr o'r chwarae. Rwy'n siŵr ei fod wedi cael profiad da efo hogia fel Leigh Jones, Lerpwl, ac yn enwedig efo Joey Jones a Brian Flynn. Gobeithio mai'r gêm hon fydd y gyntaf o lawer iddo. Mae'n dipyn o anrhydedd i Ddeiniolen ac i'r ardal, a gobeithiwn yr aiff ymlaen a chael cap llawn fel ei frawd. Da iawn chdi Gavin.

Ysgol Gwaun Gynfi: Mae 23 o blant bach wedi dechrau'n llawn amser yn


yr ysgol y tymor hwn, ac estynnwn groeso cynnes iddynt. Mae'r Gwaun Gynfi hefyd yn un o'r ysgolion hynny sydd wedi cael Uned Feithrin eleni. Mae 15 o blant yn yr Uned, ac maent yno o 9 o'r gloch tan 11 o'r gloch bob bore dan ofal eu hathrawes Jill Callister Parry. Datblygiad cyffrous arall yn ystod y flwyddyn ysgol hon fydd cael croesawu'r Uned Anghenion Arbennig newydd i Waun Gynfi. Gobeithiwn weld agor yr Uned honno ar ôl y Nadolig, a bydd yr Uned yn gwasanaethu plant dalgylch Ysgol Brynrefail. Ers dechrau'r tymor mae artist lleol wedi bod yn gweithio o fewn yr Ysgol, a bydd yn treulio diwrnod yr wythnos yma dros gyfnod o 30 wythnos. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr ar gyfer y rhieni ar nos Lun, Hydref 31, am 6.30 o'r gloch, a gobeithiwn weld cymaint ag sy'n bosibl o rieni'r Ysgol yno.



"Mae'n braf yn y cornel darllen..."

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

Y Seindorf: Ar nos Wener, Medi 16, cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn yn y Ganolfan ac yn ystod y noson tynnwyd y raffl flynyddol a'r enillwyr oedd — £125: Gwawr Williams, Hafle, Deiniolen; £100: Llifon Jones, Glan Don, Llanberis; £75: Eifion Williams, 39 Rhydfadog, Deiniolen; £50: Fiona Campbell, Linot Rep., Leicester. Dymunwn ddiolch i bawb am eu haelioni. Bydd yr elw yn dderbyniol iawn tuag at y gost o gystadlu ym Mhencapwriaethau Prydain yn Llundain ddechrau mis Hydref.

Dydd Sadwrn, Medi 17, roedd y Seindorf ym Mangor yn dathlu chwarter canrif o dderbyn Hawlfraint y Ddinas ynghyd â'r Llu Awyr o'r Dyffryn, Môn.

gwelwyd aelodau o'r Seindorf yn dechrau ar eu gwaith academiaidd, a dymunwn bob llwyddiant i Gwawr Williams, Siôn Wyn Hughes ac Alun Prydderch.

Enillwyd Clwb 200 am fis Medi gan — £25: D. W. Jones, Rhydfadog (143); £15: Mair Jones, Caernarfon (28); £10: Barry Price, Deiniolen (150).

Ebeneser a Chefnywaun: Mae'r Cyfarfod Plant wedi aildechrau erbyn hyn. Estynnir gwahoddiad cynnes i blant oed ysgol gynradd i'r cyfarfod sy'n cael ei gynnal yn festri Ebeneser ar brynhawn lau yn ystod y tymor ysgol. Mae'r plant yn dod yno ar eu hunion o'r ysgol.

Manteisiwn ar gyfle eto i'ch atgoffa am drefn newydd oedfaon y



"Gwaith caled ydi'r paentio yma..."

Nos Fawrth, Medi 27, gwelwyd y Seindorf ar S4C yn y rhaglen 'Uned 5' a rhoddwyd sylw arbennig i ddau o'r aelodau ieuengaf, Arwel Williams (10 oed) a Jennifer Lyn Morris (12 oed), y ddau wedi chwythu gyda'r Seindorf yn Llundain.

Mae tymor newydd y colegau wedi dechrau unwaith eto a

ddwy eglwys. Cynhelir oedfa undebol ynghyd â'r Ysgol Sul Unedig yn Ebeneser BOB bore Sul am 10.30 o'r gloch a chynhelir oedfa undebol yng Nghefnywaun BOB NOS SUL am 5 o'r gloch. Estynnwn wahoddiad cynnes i unrhyw un i ymuno â ni yn y ddwy oedfa.

Bydd cyfarfodydd Diolchgarwch y ddau gapel yn cael eu cynnal ddydd Sul, Hydref 16.

Plwyf Llandinorwig: Cynhelir gwasanaethau Diolchgarwch y Plwyf ddydd Sul, Hydref 16. Bydd Gwasanaeth Gosber yn Eglwys St. Mair, Dinorwig, am 3.30 o'r gloch. Y Pregethwr gwadd fydd yr Hybarch Elwyn Roberts, Archddiacon Bangor. Hwn fydd y gwasanaeth olaf yn Eglwys St. Mair. Gyda'r nos bydd Gwasanaeth Gosber yn Eglwys Crist, Deiniolen, am 5.30 o'r gloch a'r Pregethwr gwadd fydd yr Hybarch Saunders Davies.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor newydd y Gymdeithas nos Lun, Medi 26ain. Dyma ddyddiadau cyfarfodydd y Gymdeithas ar gyfer y tymor: Hydref 24, Tachwedd 28; Ionawr 23; Chwefror 27 a Mawrth 27. Cynhelir y cyfarfodydd yn y Caban am 7 o'r gloch a byddem yn falch iawn o weld aelodau newydd yn ymuno â'r Gymdeithas.

Cyngor Eglwysig: Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Eglwysig yng nghapel Libanus am 7 o'r gloch, nos Lun, Hydref 10fed. Oedfa Diolchgarwch fydd y cyfarfod hwnnw.

Diolch: Dymuna teulu Mrs Laura Williams, 20 Hafod Olau gynt, ond sydd ar hyn o bryd yn cartrefu yn Willow Hall, Caernarfon, ddiolch yn ddiffuant iawn am yr holl gardiau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr iawn i eglwys Cefnywaun am y blodau hardd a dderbyniodd, ac am yr ymweliadau hefyd. Diolch i staff Willow Hall am eu caredigrwydd. Diolch yn fawr i bawb.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

Cymdeithas y Chwiorydd: Cyfarfu aelodau o Gymdeithas Chwiorydd Eglwys M.C. Brynrefail yn y Ffestri, nos lau, Medi 1af dan lywyddiaeth Mrs Lowri P. Roberts Williams. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Betty Owen, Tros yr Afon. Croesawodd y llywydd ŵr gwadd y noson, sef y Parchedig S. O. Hughes, Bethel. Treuliwyd orig ddifwr yn ei gwmni tra'n gwrando arno yn adrodd ei brofiad fel gwenwynwr. Diolchwyd iddo am ei sgwrs ddifwr gan Mrs Verna Jones, Meillionen. Paratowyd y baned gan Mrs Euronwy Roberts a Mrs Rhian Jones a diolchwyd iddynt gan Mrs Eirianwen Evans. Cynhelir cyfarfod olaf tymor 1994 yn y Ffestri ar nos lau, Hydref 6ed, pryd y disgwylir Mr Robert Williams, Deiniolen, i roi sgwrs.

Priodas: Ddydd Sadwrn, Medi 11eg, yng Nghapel M.C. Brynrefail, priodwyd Miss Christine Ann Jones, merch Mr a Mrs Arthur Jones, 5 Trem Eilian â Mr Adrian Salisbury, mab Mr a Mrs K. Salisbury, Ael y Garth, Llanwnda. Gweinyddwyd gan y Parchg John Pritchard, Llanberis, a'r organyddes oedd Mrs Lowri P. Roberts Williams, Brynrefail. Y morynion oedd Gwenlli Jones, Hannah a Katie Jones, Gwenar Williams, Lianne Jones a Bethan Williams a'r ddau facwy Dion Jones ac Andrew Williams. Yr ystlyswyr oedd Paul Jones a Myrddin Williams. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Bulkeley, Biwmares, ynghyd â pharti yn dilyn gyda'r nos. Treuliwyd y melrawd yn teithio yn Ne Cymru. Mae'r briodferch yn dilyn galwedigaeth yn trin gwallt a'r priodfab yn gweithio gyda chwmni Schofield yng Nghaernarfon. Bydd y pâr priod yn ymgartrefu yn

Clwydfan, 9 Dyffryn Terrace, Y Groeslon. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.



Uchod ac isod: Iluniau o Swper Sefydliad y Merched yng Nghlynllifon ym mis Gorffennaf.

Priodas: Llongyfarchiadau i Lowri Prys Roberts ar ei phriodas â Mr Norman Williams. Dymunwn bob bendith i'r ddau ohonoch ac estynnwn groeso cynnes i Mr Williams i'r ardal.

— Golygyddion

O'r Ysbyty: Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mrs Dilys Jones, Cytir, sydd wedi dychwelyd gartref wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Sefydliad y Merched: Daeth aelodau'r gangen leol ynghyd i'r Ffestri, nos Lun, Medi 19leg, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifenyddes, Mrs Betty Owen, a diolchwyd yn gynnes iawn iddi am drefnu'r wibdaith flynyddol a ymwelodd eleni â Phlas Glynllifon. Treuliwyd noswaith hyfryd ddiwedd Gorffennaf yn ymweld â rhai gweithdai, cael sgwrs a sleidiau ar hanes y parc a phryd o fwyd blasus i gloi'r noson.

Gan mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf yn dilyn gwyliau'r haf treuliwyd y noson yn trafod cynnwys llythyr y mis a chyfarfodydd i'w mynychu yn y dyfodol agos — ymweliad a changen Llanberis yng nghwmni y Meddyg Robin Parry ar Fedi 22ain ag Eisteddfod Ffederasiwn Sefydliadau Merched Gwynedd a gynhelir yng Nghricieth ar ddydd Sadwrn, Hydref yr 8fed. Paratowyd y baned gan Mrs Ifanwy Jones a Mrs Lowri Roberts Williams. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Gwawr Morris, oedd Mrs Pat Jones. Talwyd gair o ddiolch gan y llywydd. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Hydref 17eg, pryd y disgwylir arddangos gwaith peintio ar sidan.

Pencampwyr: Llongyfarchiadau i Llŷr a Nia Griffith, Fferm Bryn Derw, ar nifer o lwyddiannau dros fisoedd yr haf mewn cystadlaethau marchogaeth ac arddangos eu ceffylau mewn nifer o sioeau. Cawsant lwyddiant arbennig yn Sioe Llyfni gyda dwy wobwr gyntaf a dod yn bencampwyr mewn dwy adran.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Eleanor Jones, Na Nog, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, y diwedd Mr Ellis Goronwy Pritchard, 38 Maes Padarn, Llanberis, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Fedi 17eg.

Diolchgarwch: Cynhelir oedfaon diolchgarwch eleni yng Nghapel M.C. Brynrefail ar ddydd Sul, Hydref 23ain.



CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Y Plant a gychwynnodd yn Ysgol Cwm-y-glo ym mis Medi: Gafin, Victoria, Nathan, Heather, Ceri, Llion Bryn, Kerry, Roxanne, Michaela a Stephanie.

Gwesty'r Snowdon: Ers misoedd bellach y mae'r gwesty wedi bod yn cynnal noson 'Cwis' er noddi achosion da. Fe drosglwyddwyd £100 i'r NSPCC ar ôl y ddwy noson ddiwethaf.

Mae'r arian o'r ddau gwis nesaf yn cael eu rhoi i Mr Steven Williams, Rhiwlas, sydd wedi derbyn gwyliau gan Mr Ian Turner o 'Marcher Coast Radio' ar ran 'Wish Upon a Star', ac fe fydd Mr Ian Turner yn bresennol

yn y gwesty ar noson cwis 6ed Hydref.

Ymddeol: Mae Mr Dafydd Price wedi ymddeol o fod yn arweinydd ieuencid rhan-amser i Gyngor Sir Gwynedd. Wedi gwasanaethu mewn llawer o glwbau ieuencid yn y fro ers dros chwarter canrif bu'n rhaid iddo roi i mewn i bwysau gwaith dyddiol, oherwydd gofynion gwaith min nos.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

Merched y Wawr: Yng nghyfarfod cyntaf y tymor estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau gan y Llywydd, Menna Williams.

Llongyfarchwyd pawb fu'n sefyll arholiadau yr haf hwn a dymunwyd pob llwyddiant iddynt yny chweched dosbarth ac yn y gwahanol golegau. Llogyfarchwyd Eryl Roberts ar ddod yn nain unwaith eto — nain i Bethan Angharad.

Da deall fod Nan Humphreys yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty. Brysia'n ôl atom Nan! Anfona Mrs Williams, Bodfair, ei chofion gan obeithio ymuno â'r gangen yn fuan.

Llongyfarchiadau mawr i Julie ar ei chrefftau cywrain a ddewiswyd i gynrychioli Rhanbarth Arfon i'w harddangos yng Ngŵyl Grefftau yn Aberystwyth. Deellir fod deg eitem ganddi gan gynnwys cloc, llun, cerdyn 50 oed!, cerdyn Nadolig, torch, boc, castell tylwyth tēg, ynghyd â chluster dylsau. Edrychir ymlaen am gael eu gweld gan aelodau'r gangen.

Therapydd Galwedigaethol, Mrs Jean Owen o'r Waunfawr, oedd y wraig wadd ac fe'i llongyfarchwyd am ddysgu Cymraeg ac am fod yn ddigon hyderus i'n swyno gyda'i Aromatherapi. Yn enedigol o'r lwerddon roedd yn hyfryd gwrandio arni yn siarad Cymraeg gydag acen Wyddelig. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol iawn gan Bethanne Williams.

Enillydd y raffl oedd Avril. Diolchwyd i Jean, Heulwen, Julie ac Ann am baned dda, gan Mary Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Hydref 11eg, am 7.30 o'r gloch. Gŵr gwadd y noson fydd Mr D. Rogers Jones fydd yn rhoi inni 'Olwg ar Hen Bethau'. Felly os oes hen greiriau gwerthfawr gennych dowch â nhw. Mae croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r gangen. **Ysgol Gynradd:** Croesawn Miss Awen Griffith fel aelod o staff yr ysgol.

Bu blwyddyn chwech ar ymweliad a'r ddeorfa yn Crawia fel

cychwyniad i'w thema y tymor hwn — 'Ein Cynefin'.

Croesawn y plant newydd i'r ysgol a hyderwn y byddant yn setlo i lawr yn fuan ac yn hapus iawn yn ein plith.

Dymunwn y gorau i blant blwyddyn chwech 1994 sydd bellach wedi dechrau cyfnod newydd yn Ysgol Uwchradd Brynrefail. Braff oedd eu gweld yng galw heibio yn ystod yr wythnos gyntaf yn eu hysgol newydd i ddweud tipyn bach o'u hanes wrthym.

Trist iawn gennym oedd clywed am farwolaeth Mr Derfel Gruffudd, cyn-brifathro'r ysgol ar ôl brwydro mor ddewr yn erbyn afiechyd. Cydymdeimlwn gyda Glenys a'r plant yn eu profedigaeth lem. Bydd yn golled fawr i'r fro ac i Gymru.

Gwellhad: Anfonwn ein cofion a phob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Nan Williams, 2 Ffordd Glanffynnon; Mrs Gaynor Owen, Lliwedd, Ffordd Glanmoelyn; Mr R. H. Williams, Afon Rhos; Mrs Roberts, Elan Wen; a Mr R. T. Pritchard, Tŷ Newydd ac i unrhyw un arall sy'n wael yn y pentref.

Llongyfarchiadau i Wendy a Hugh (Llanberis) ar enedigaeth mab bach, ŵyr cyntaf i Selwyn a Vera, Ffordd yr Orsaf; ac i Gwyn ac Ann, Bryn Elan, Ffordd Bethel. Hefyd i Sharon a Martin, Pontrhythallt ar enedigaeth merch fach, wyres arall i Menna a John a gor-wyres i Mrs Owen.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i bobl ifainc y pentref fu'n llwyddianus yn yr arholiadau TGAU. Pob lwc iddynt i'r dyfodol.

Plaid Cymru: Trefnwyd rhaglen amrywiol ar gyfer 1994-95, ac edrychwn ymlaen unwaith eto at dymor llewyrchus.

Yn ogystal â'r gweithgareddau poblogaidd arferol, fel Ffair Nadolig (Rhagfyr 7), Dathlu Gŵyl Ddewi a'r Helfa Drysor, mae'r rhaglen yn cynnwys Ysgol Ganasio, Taith Ddirgel, a nifer o sgysiau.

Y gyntaf o'r sgysiau hyn fydd 'Y



Enillwyr y Grŵp yn y Carnifal: 'Adams Family'.

Gyfraith — Cymru a Chymraeg' gan y Barnwr Dewi Watkin Powell, a gynhelir ar Tachwedd 9, yng Nghaolfan Penisarwaun.

Mae croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysyllter ag Olwen Llywelyn (650200) neu Phyllis Ellis (870237).

Capel y Rhos: Cafwyd noson ddiffr yny nghyfarfod chwiorydd Capel y Rhos ar nos iau, Medi 22, yn gwrandio ar hanes Doris Adlam. Bu Doris yn helpu'r digartref a'r anghennus yng Nghaerdydd am rai blynyddoedd cyn dechrau ar ei gwaith fel Swyddog Prawf yng Ngwynedd. Roedd y gwasanaeth dechreuol yng ngofal Amranwen Lynch, gyda Mrs W. O. Roberts yn llywyddu. Darparwyd y te gan Mrs Enid W. Thomas a Mrs Amy Smith.

Cyfarfod Diolchgarwch fydd y cyfarfod nesaf a gynhelir ar bnawn iau, Hydref 27, am 2 o'r gloch.

Carnifal Llanrug: Wedi absenoldeb o bum mlynedd cynhaliwyd Carnifal ar ddydd Sadwrn, Medi 10fed. Cychwynnodd yr orymdaith, gyda Seindorf Arian Llanrug a'r Brownies ar y blaen, o Bontrhythallt am 1.30 p.m. gan gyrraedd yr Ysgol Gynradd am 2.15 p.m. Y beirniaid oedd Maer Arfon y Cynghorydd Brian Jones gyda'i wraig Mrs Olwen Jones; ac hefyd cyflwynwyr 'Ffair Sadwrn': Nia Elin, Rhodri Owen, Lisa Elfyn a Helen Griffiths.

Y cyhoeddwr oedd Mr Robin Williams, prifathro'r Ysgol Gynradd. Darllenwyd llythyr gan Miss Siân Wheldon yn ymddiheuro na allai fod yn bresennol yn y Carnifal.

Enillwyr y gwahano gategoriau oedd — Tablo Stryd neu Grŵp: Adam's Family; Beic neu bram wedi ei haddurno: Sionwy a Dafydd (cydradd); Plant dan 3 oed, unrhyw wisg: Bethan ac Elliw (cydradd); Genethod 3-5 oed, unrhyw wisg: Jennifer a Sandra (cydradd); Bechgyn 3-5 oed, unrhyw wisg: Aled; Genethod 6-8 oed, unrhyw wisg: Ffion; Bechgyn 6-8 oed, unrhyw wisg: Marvin; Genethod 9-11 oed, unrhyw wisg: Sofka a Siân (cydradd); Bechgyn 9-11 oed, unrhyw wisg: Kevin; Ieuencid 12-16 oed, cymeriadau teledu: Nicola; Enillwydd y cwpan am y cymeriad unigol gorau o'r uchod: Kevin; Cwpl wedi eu gwisgo orau, unrhyw oed: Carl ac Emma; Dros 16 oed, unrhyw wisg: Wendy Jones; Nain fwyaf deniadol: Mrs Menna Williams; Fferau mwyaf siapus: Nicola; Penagliniau di-siâp: Jackie Roberts.

Enillwyr y raffl oedd: Delyth Hughes, Tom Davies, Margaret Jones, Mrs Karen Williams, Mrs Jill Jones, rhifau 346-350 a rhifau 366-370 heb eu hawlio — cewch hawlio'r raffl Tedi a'r botel win yn siop Wavell, cofiwch ddod a'r tocynnau gyda chwi. Enwi'r clown (Charlie): Siôn Rhys Jones.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr i'r canlynol am eu rhoddion tuag y raffl a'r tombola a gynhliwyd nos iau, Medi 8fed: Bysiau Arvonias; Becws Bryngwyn; Becws Cwm-y-glo; Elaine; Hafod Garage; Penbont; Storfa Llanrug (Spar); Seiont Manor; Wavell; Miss Beryl Thomas; Mr a Mrs John Hughes Jones, Bryn Afon; Mrs Eurwen Williams; Mr a Mrs Bryn Williams, B & K Williams, Glanmoelyn; Mrs J. Hewitt, Caernarfon; Mr a Mrs Pyrs Jones; Mr a Mrs Richard Humphreys, Plas Gwyn; Mrs G. M. Jones.

Diolchir hefyd i Mrs Helen Lewis, gofalwraig yr Ysgol Gynradd, a phawb arall a roddodd help llaw yn ystod diwrnod y Carnifal.

Mae'n ymddangos fod diddordeb i gynnal Carnifal yn flynyddol yn Llanrug. Bydd pwyllgor cyffredinol yn cyfarfod yn ystod mis Hydref a bydd croeso i rywun sydd â diddordeb. Rhoddir posteri yn y siopau yn nes at y dyddiad.



"Ond dydan ni'n blant mawr?" Plant newydd Ysgol Llanrug, Medi 1994.

EISTEDDFOD PENTREF LLANRUG

NOS WENER, 14 HYDREF
am 5.30 o'r gloch

Ydych chi'n fodlon helpu trwy fod yn stiward ar y drws am awr?
Cysylltwch â Gwenda Roberts ar 675649 ar fyrder, os gwelwch yn dda.

AIL DÎM LLANRUG 1994-95



PYTIAU O YSGOL BRYNREFAIL

Mae'r traddodiad pêl-droed yn yr oedran iau yn parhau. Bydd 7 o fechgyn — nifer sylweddol o ysgol gymharol 'fechan' — yn cymeryd rhan yn nhrefalon carfan — 13 Arfon. Bydd y garfan honno yn chwarae yng nghystadlaethau Cymru dros y misoedd nesaf. Y 'magnificent seven' yw — Cefn: Lee Hughes, David Peters, Wayne Jones, Rory O'donnell; Blaen: Alwyn Jones, Martin Willis.

Roedd Christy Boothroyd yn absennol pan dynnwyd y llun.



Rhian, Iona a Catrin.

Mae Rhian Green (Llanrug) wedi ei dewis i chwarae i dim — 16 Pêl-rwyd Gwynedd. Bydd Catrin Jones ac Iona Williams (Llanrug) i'w dwy yng ngharfan hoci — 16 ardal Arfon. Fel rhan o'r garfan hon, byddant yn mynd ymlaen i dreialon hoci Gwynedd.

DRAENOG



Mae hyd yn oed draenog yn gorfod talu morgais y dyddiau hyn. Y bora 'ma cefais DRI llythyr mewn TAIR amlen yn dweud bod rhaid talu rhagor y mis nesaf. Dim syndod, meddwn innau — mae'n rhaid talu am yr holl wastraff papur 'na rywsut!

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

CYFLWYNO'R TLWS I IWAN




Aeth y Golygydd Chwaraeon i'r Ysgol Sul yng Nghapel Cysegr, Bethel, yn ddiweddar i gyflwyno Tlws y Mis yr Eco i Iwan Morris. Yn y llun, mae Iwan (y trydydd o'r dde yn y rhes ganol) yn dal y Tlws. Fe gawsom ei hanes yn yr Eco y mis diwethaf wrth gwrs.

**GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon
675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

CROESAIR HYDREF



AR DRAWS

1. Ymais o foddio (6)
4. Dychmygu tynnu'r to oddi ar dy Beti (6)
7. Yr holl lot! (9)
9. O daro sgwrs, dyma a wneir fel arfer (4)
10. Gweddillion brag ar ôl darllaw cwrw (4)
11. Dechrau bwrw glaw (5)
13. I wireddu dymuniad, fe dynnir yr un sydd ym mhen ôl iâr (6)
14. Daw yn ôl ddwy don pan fydd yn amser gwnio (6)
15. Mae gallu arbennig iawn gan Alen mewn rasmus moto-beic (6)
17. Colyn neu echel (6)
19. Tafodrydd (5)
20. Mae dau gan y Brenhinoedd, ond dim ond un gan y Barnwyr (4)
22. Gwlybaniaeth a ffurfir yng ngenau Pero? (4)
23. Fel babi newydd ei eni, ond ni wyddai'r hen frenin chwedlonol hynny (9)
24. Gweinyddu ar gleifion (6)
25. Mae Sais yn datgysylltu trydan yn ddiwyll (6)

I LAWR

1. Gwaith arafach, yn ôl a glywaf, yw casglu mafon duon (6)
2. Mae'n cael ei guro'n aml am ein rhwystro rhag mynd i mewn (4)
3. Hen ddinistrio (6)
4. Cyflenwr golau a gwres (6)
5. Yr archwaeth a ddaw o gymysgu slab (4)
6. Anfad (6)
7. Maen, rhag i neb anghofio (9)
8. Hynodrwydd (9)
11. Chwarae: mae'r gyntaf yn y llynges a'r cyfan wedi eu carcharu gan yr heddwes (5)
12. Wedi ei farcio (5)
15. Creu gwres o gwmpas y dyrfa wna hon o Gwm y Glo (6)
16. Yr hyn a wnawn wrth fynd o fan i fan (6)
17. Yr hyn a wna El Bandito a'i debyg... (6)
18. ... a dyma ddisgrifad ohonynt (6)
21. 'Fe... ei ddwylo pur ar led' (W) (4)
22. Rhif. (Gweler y nodiadau) (4)



ar yr hyd a'r lled. Llongyfarchiadau i chi — mae'n dda gweld eich bod yn cadw cysylltiad â'r ardal drwy gyfrwng yr 'Eco'.

Rwyf am i chi lunio cliw i ateb 22 i lawr y mis yma, os gwelwch yn dda. Gyrwch eich croeseiriau i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn Hydref 17, os gwelwch yn dda.

DIOLCH

Dymuna Miss M. Owen, Hafan Elan, Llanrug, ddiolch i'w chymdogion a'i ffrindiau yn gynnes iawn am y rhoddion a'r cardiau hardd a dderbyniodd pan yn dathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Dyddiader y Mis

MIS HYDREF

- 4 Mawrth.** **BETHEL:** Cyfarfod blynyddol y Neuadd am 7.30 o'r gloch.
- 6 Iau.** **BETHEL:** Yr Urdd. Trafodaeth yn y Neuadd ynglŷn â sefydlu uwch-adran.
BRYNREFAIL: Cyfarfod y Chwiorydd. Sgwrs gan Mr R. Williams.
DEINIOLEN: Cyfarfod y Chwiorydd yn Ebeneser.
- 8 Sadwrn.** **WAUNFAWR:** Plaid Cymru — Sêl Cist Car am 10 y bore ym maes parcio'r Ganolfan.
DEINIOLEN: Cyngor Eglwys — Cyfarfod Diolchgarwch yn Libanus am 7.
- 10 Llun.** **LLANRUG:** Merched y Wawr yn cyfarfod am 7.30 — Mr D. Rogers-Jones yn rhoi 'Golwg ar Hen Bethau'.
- 11 Mawrth.** **LLANRUG:** Plaid Cymru — Cwmni Bara Caws yn cyflwyno'r ddrama DIANA, yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30.
- 12 Mercher.** **DINORWIG:** Gŵyl Ddiolchgarwch Eglwys St. Mair am 3.30.
DEINIOLEN: Cyfarfod Diolchgarwch Ebeneser a Chefnywaun. Gwasanaeth Gosber yn Eglwys Llandinorwig am 5.30.
- 16 Sul.** **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched — ymweliad gan Mrs Lowe, Y Fachwen, i ddangos gwaith peintio ar sidan.
DEINIOLEN: Merched y Wawr — Mrs G. Davies, Bethesda.
- 17 Llun.** **PENISARWAUN:** Cyfarfod o Antur Padarn yn yr Ystafell Gymuned am 7 o'r gloch.
BETHEL: Yr Urdd — noson ymaelodi rhwng 6 a 7 o'r gloch.
- 20 Iau.** **BRYNREFAIL:** Oedfaon Diolchgarwch.
DEINIOLEN: Y Gymdeithas Lenyddol.
BETHEL: Cyfarfod olaf pwyllgor yr Eisteddfod am 7.30.
- 23 Sul.** **LLANRUG:** Cyfarfod Diolchgarwch Chwiorydd Capel y Rhos am 2 o'r gloch.
- 24 Llun.**
- 26 Mercher.**
- 27 Iau.**

MIS TACHWEDD

- 3 Iau.** **CAERNARFON:** Ffair Hydref at Apêl Ymchwil y Galon yng Ngwesty'r Royal am 7 o'r gloch.
- 4 Gwener.** **GLYNLLIFON:** Aduniad cynfyfyrwyr Glynllifon a Madryn am 7.30 o'r gloch yn Glynllifon.
BETHEL: Eisteddfod y pentref am 6 o'r gloch.

RHODDION

£10
Er cof am Mrs Betty Eiddwen Hughes, 1 Bryntirion, Penisarwaun.

£5
Er cof am Jack a Lizzie Davies, 20 Dôl Afon, Cwm-y-glo.
Er cof am John a Catherine Williams, Bwlch Cottage, Cwm-y-glo; oddi wrth Charlotte Hughes, 19 Gernant, Braichmelyn, Bethesda; gynt o Bwlch Cottage, Cwm-y-glo.
Nora O'Brien (Nora Monroe)

o Tŷ Capel Penisarwaun gynt)
Gwilym Owen, 9 Stryd yr Wyddfa, Llanberis.
Miss M. Owen, Hafan Elan, Llanrug.

EOIN O'BRIEN

Dymunwn ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o garedigrwydd tuag atom yn ystod gwaeledd Seán ac yn ein profedigaeth lem o golli gŵr a thad arbennig.

Diolchwn am gymorth teulu a ffrindiau; am ofal tyner y meddygon a'r nyrsus; ac am eich gweddïau drosom — buont yn nerth i ni yn ein tristwch.

Cyflwynwyd y rhoddion er cof am Seán i hosbis 'The Good Shepherd' ac i 'Apêl Nightingale'.

Gyda'n diolch i Dduw am fywyd Seán.

Norah, Peter a Paul,
Etonfield,
Ffordd Gwernaffield,
Yr Wyddgrug.

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG

Caernarfon 673513



AR WERTH

FORD ESCORT
angen peth sylw

(0286) 678847

CHWARAEON

CADW TRAC

Dros y rhifynnau diwethaf, bu enw Alun Vaughan o Lanberis yn ymddangos yn aml iawn. Gyda balchder, yr ydym wedi dilyn ei ddatblygiad a'i lwyddiant. Y mae llawer o'r gwybodusion yn dyfalu dyfodol disglair iddo. Fel ei ragflaenydd Colin Jones, sy'n dal ymysg y goreuon, mae llawer yn ceisio damcaniaethu am eu dyfodol. Hyd yn hyn, fel rhedwyr trawsgwlad neu redwyr mynydd y cysylltir hwy. Y prif ddyfalu yw, a fydd y ddau rhyw dro yn symud i fod yn redwyr llwyddiannus ar y trac. Yn sicr, bydd datblygiad y trac newydd yn Nhreborth yn gaffaeliad mawr i Glwb Rhedwyr Eryri. Bydd yn denu llawer o ieuenctid tuag at y gamp. Erbyn heddiw, mae athletau wedi ennill rhyw statws arbennig, ac mae'r arian mawr fel gwobrwyon, a'r cynnydd sylweddol yn oriau darlledol o'r gamp yn brawf o hynny. Mewn unrhyw bôl o faes y campau yn nodi person mwyaf poblogaidd byd y campau yng Nghymru rwy'n sicr y busasai enw Colin Jackson yn uwch na llawer i arwr y bêl gron neu hirgron — mor wahanol i ddyddiau blaenorol.



Alun Vaughan — ar ras i gyrraedd y brig.

Y mis yma edrychaf yn fwy manwl ar yrfa Alun hyd yn hyn — gan ei fod wedi cyrraedd cyfnod allweddol yn ei yrfa. Erbyn hyn mae'n rhedeg yn erbyn oedolion. Y mae dwy ran i'w yrfa, wrth gwrs. Gan mai dim ond 15 oed yw Alun, y mae'n dal yn gystadleuydd brwd ar lefel athletau ysgolion. Ar y lefel honno y 3000m yw ei brif nod — i chwi sy'n gallu dyfalu o'r gadair esmwyth, 7½ lap yw hynny. Ei amser gorau — neu PB chwedl y teledu — yw 9 munud 6 eiliad. Enillodd y ras yn rhwydd ym Mhencampwriaeth Gwynedd. Ac ym Mhencampwriaeth Cymru daeth yn ail — yn y ras i rai dan 17. Mae amser o'i blaid! Yn dilyn y ras honno cafodd daith i Aberdeen i ddod yn 7fed yn y 3000m. Edrychwn ymlaen i'w ddatblygiad yn y 3000m yn y blynyddoedd nesaf — mae'n amser i rywun roi ras i'r Kenyans! Gyda llaw, pan mae Alun yn rhedeg ar yr Wyddfa, ydy o wedi dechrau ar ei 'altitude training'? Yna, yr ochr arall i'w yrfa - y rاسus lôn a mynydd. Bu'n gefnogwr brwd i Ras y Wyddfa, ac ef sy'n dal record y cwrs i fechgyn dan 16. Ei awr fawr ar y mynydd oedd ennill Ras yr Eifl yn ddiwedd, gan mai hon oedd y ras gyntaf iddo ennill yn erbyn dynion. Aeth heibio'r Eifl wedyn, a sefydlu record cwrs i rai dan 16 yn ras Lôn Aberdaron.

Roedd Alun erbyn hyn wedi dod i sylw llawer, a'i ymroddiad a'i hunan ddisgyblaeth yn amlwg yn ffactorau cryf o'i blaid. Y mae'n amlwg yn mwynhau her — mae ei barodrwydd i gystadlu tu allan i'w oedran yn brawf o hynny. Mewn unrhyw gamp y fest neu gap cenedlaethol yw'r prif faen prawf, ac os yw'n Bencampwr neu ddeiliad record yn ychwanegol, yna mae'r ymdrech yn llwyr werth ei rhoi. Gwelwyd gwireddu y dyheadau ar Awst 14 eleni pan gipiodd Alun Bencampwriaeth Rhedwyr Mynydd Cymru i rai dan 20 oed. Agorodd hyn ddrysau i lwyfan ryngwladol ar lefel byd. Cynrychiolodd Cymru yn y 'Wald Trophy' yn yr Almaen. Mae'n cyfaddef iddo fod yn siomedig â'i berfformiad o orffen yn 44ydd. Dylsid ychwanegu wrth gwrs fod ganddo 4 blynedd ar ôl i gipio y tlws yma, a bod ganddo flwyddyn arall o dan 17.

O sgwrsio ag Alun daw yn amlwg mai bachgen diymhongar iawn ydyw. Yn aml, pobl eraill sy'n dweud wrthyf amdano. Y mae o'n ddigon bodlon gadael i'w berfformiadau siarad drosto. Ei uchelgais yw cynrychioli Cymru yn un o'r prif gystadlaethau fel gemau y Gymanwlad. Mae'n derbyn bod llawer o ymdrech ac aberth yn ei wynebu cyn cyrraedd y fath nod. O'r miloedd sy'n cychwyn, ychydig iawn sy'n cyrraedd y nod. '3000m, Gold Medal Winner . . . Os gwn i!'

AM Y TARW

Cynyddu mae'r campau ble mae'r rhywiau yn cyd-gystadlu. Un o'r prif feysydd hynny yw dartiau. Yn y cynghreiriau lleol peth cyffredin yw gweld timau cymysg. Mae'r teulu Morris o'r Cremlyn, Bethel, yn enghraifft dda o hyn. Mae'r gŵr, Dafydd, yn gapten tîm y Bedol sydd newydd ymuno ag Adran 3 o Gynghrair Caernarfon a'r Cylch. Chwrae tair, ennill un, colli un, cyfartal un, yw record y tîm hyd yma, ond mae Dafydd yn ddiguro. Y wraig Gillian yw un o'r cyd-aelodau yn y tîm. Mae hi hefyd yn aelod o dîm merched Morgan Lloyd. Yn ddiweddar bu cystadleuaeth agored ym Methesda i brif chwaraewyr Gwynedd. Prif bwrpas y gystadleuaeth oedd dewis dwy garfan o 6 i gynrychioli tîm Gwynedd yng Nghystadleuaeth Siroedd Cymru. Bydd y gêm gyntaf yng Nghlyn Ebwy yn erbyn Gwent. Mae Dafydd wedi dweud y caiff Gillian fynd i Glyn Ebwy ar y Sul, ond iddi wneud yn siŵr ei bod yn ôl erbyn gêm Bedol nos Lun. Buasai'n rhy ddistaw hebddi!



NEWID ER GWELL NEU ER GWAETH



Tîm dan 11 oed Bethel.

Yn ddiamheuol traddodiadol iawn ydym ni fel Cymry. Ychydig iawn o sylw rown i'r campau lleiafrifol. I lawer gwastraff yw'r palas tenis yng Nghaernarfon. Bois y campau corfforol ydym ni — y bêl-droed, y rygbi. Nhw yw camp ein cymdeithas. Hwn a hwn oedd y 'centre forward' gorau, neu'r taclwr gorau, neu'r pasiwr gorau. Ac yna'r 'ceiliogod dandi' chwedl Orig sydd wedi newid 'rheolau' y gêm! Fuasai Orig a Tarw ddim yn boddran mynd ar y cae heddiw! Ar y Sadwrnau diwethaf, rwyf wedi gwyllo tîm dan 11 y pentref acw yn chwarae o dan y rheolau newydd. Dyma fraslun i chwi. Awgrymir maint y cae o tua 60m x 40m. Y timau yn 7 bob ochr, heb ddim rheol gamsefyll. Y mae'r blwch cosbi yn ymestyn ddeg llath allan i'r maes, ond yn mynd ar draws lled y cae. mae hwn yn un syniad y bu dadlau amdano ar lefel oedolion. Ugain munud pob ochr yw hyd y gêm. Gellir eilyddio unrhyw adeg, a'r bwriad yw nad yw'r gêm yn stopio. Mae'r gôl yn llai, felly yn amlwg mae'r goliau i'w sgorio, nid y ffars

o weld y gôlgeidwad bychan yn ceisio amddiffyn gôl maint llawn.

Tipyn o newid, ac efallai yn wrthun i'r traddodiadol. Er mai gan FA Cymru y daeth yr arweiniad mae cryn blygu arnynt yn lleol. Mae rhai timau yn dal i gynnal gêm gyda rheol camsefyll. Eraill yn mynnu fod y gôlgeidwad yn taflu'r bêl allan ac nid ei chicio — fel mewn gêm 5 pob ochr.

Un elfen bwysig hyd y gwelaf i yw bod y drefn newydd yn rhoi cyfle i fwy o blant chwarae'r gêm. Y traddodiad oedd cael carfan o ryw 18, ond yr 11 'da' oedd yn cael gêm bob Sadwrn. Byddai'r gweddill yn bodloni ar dlws ar ddiwedd tymor am fod yn aelod o'r 'garfan'. O dan y drefn newydd gellir ffurfio dau dîm.

Beth am y gêm! Yn sicr mae llawer mwy o basio, yn lle y gic fawr a'r ras. mae'r plant yn cael mwy o syniad o greu lle. Mae mwy o amser i reoli. Dylsai hyn wella y symud oddiar y bêl — crefft anodd i feithrin mewn plant. Y peth mwyaf pwysig yw fod pob aelod o'r tîm yn ymwneud â'r gêm. Maent yn rhedeg mwy, mae mwy o unigolion yn sgorio, mae pawb yn gorffod taclo a marcio.

Annheg fydd rhoi barn ar ôl cyfnod byr, ond mewn pum neu chwe mlynedd byddwn yn chwilio am gynnydd sylweddol yn safon pêl-droed y cylch. Beth am fynd draw i wyllo bore Sadwrn nesaf mae timau ym Methel, Llanrug a Llanberis.

TORRI RECORD

Diolch am yr ymateb o dan y pennawd 'Ble mae nhw heddiw?' yn rhifyn mis Medi. Rwy'n gwybod fod llawer ohonoch wedi cael hwyl yn ceisio rhoi enwau i'r llun. Clywais fod un neu ddwy o'r merched wedi cael tipyn o dynnu coes o'r ochr orau — 'Dwyt ti ddim wedi newid dim!' Rhaid oedd gnwued mwy o ymchwil, felly dyma holi Dic Parry. Hen record y waywffon — a sefydlwyd gan Eifion Roberts yn 1962 — oedd 44.15 metr. Safodd y record yma am 32 mlynedd, gan mai yr haf diwethaf yma y torrwyd hi. Y deilydd newydd yw Arwel Jones o Benisarwaun a daflodd y waywffon 48.80 metr ym Mhencampwriaeth Gwynedd a gynhaliwyd ym mae Colwyn.

Y mae'r record am y naid uchel yn dal yn nwylo — neu draed — Stan Roberts, Llanberis gynt, Llanrug rwan. Sefydlwyd y record hon yn 1959 gyda uchder o 1.70m. Yn amlwg 'spring' chicken oedd Stan yr adeg hynny!

Y mae ymateb, fel 'dych chi'n gweld yn agor drysau eraill. Oes gennych chi fwy o straeon neu luniau?



Eifion Roberts yn llongyfarch Arwel ar dorri y record bicell.

Unrhyw stori
— mewn gair
neu lun —
COFIWCH
(0286) 670115